# Prosiect Ymgysylltu â Dinasyddion 50$^{+}$

## Cam 1

## Adolygiad Ymchwil

## Rhwystrau i Ymgysylltiad: o ddealltwriaeth i weithredu

Nick Gould
Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru

**Adroddiad a gomisiynwyd ar ran Partneriaeth Gweithred Bositif 50$^{+}$ Caerffili gan ddefnyddio adnoddau a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru**

# RHAGAIR

Mae'r adroddiad hwn yn ffurfio cam un o brosiect a gynlluniwyd i sicrhau bod pobl sy'n 50 oed a hŷn wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ynghylch comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau i bobl hŷn a threfniadau llywodraethu lleol eraill. Mae nodi'r rhwystrau i ymgysylltu'n effeithiol yn rhan allweddol o'r prosiect.

Bydd y camau nesaf yn:

- Profi canfyddiadau'r adolygiad ymchwil hwn mewn gweithdai
- Treialu atebion arloesol ar gyfer ymgysylltiad
- Darparu templedi ar gyfer fformatau cynlluniau peilot llwyddiannus
- Darparu "pecynnau cymorth" hygyrch ac atebion arloesol i weithwyr proffesiynol, yn ogystal â'r rheini sy'n 50 oed a hŷn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Mandy Sprague
Swyddog Datblygu ar gyfer Pobl Hŷn

Ffôn: 01443 864277
E-bost: spragm@caerphilly.gov.uk

## CYDNABYDDIAETHAU

Cydnabyddir cyfraniadau a chymorth y cydweithwyr canlynol:

Simon Boex - Deborah Boyce - Gayle Davies - Jackie Dix - Leo Hendry - Liz Higham - Ann James - Jonathan Jones - Marion Kloep - Catherine Lacey - Jean Lane - Ann Lewis - Sian Lewis - Julia Magill - Ann Meloy - Kerry Morgan - Claire Morris - Gweneira Raw-Rees - Andrew Scowcroft - Sarah Shannon - Liz Sharma - Mandy Sprague - Ian Stuart-Hamilton - Rachel Taylor - Stephen Thomas - Rhianon Urquhart - Morton Warner

Cyfrifoldeb yr awdur yw unrhyw wallau neu hepgoriadau.

Mae'r sefydliadau canlynol yn cefnogi neu'n darparu adnoddau ar gyfer y prosiect:

Age Concern Cymru - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Cyngor Sir Caerdydd - Cyngor Sir Caerfyrddin - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Cyngor Sir Ddinbych - Cyngor Sir y Fflint - Cyngor Sir Gwynedd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd - Cyngor Sir Penfro - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Llywodraeth Cynulliad Cymru - BGOP/OPAG – CMGG – GICC Caerffilo - Gofal a Thrwsio Merthyr – Cynghrair Iechyd Caerffili - Fforwm 50+ Caerffili -

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru
Prifysgol Morgannwg
Medi 2007

# CYNNWYS


Rhagair 1

Cydnabyddiaethau 1

Cynnwys 2

Adran 1
Crynodeb Gweithredol
- Diben 4
- Ymgysyllitad a Diffiniadau Eraill 4
- Canfyddiadau Allweddol 6

Adran 2
Adolygiad Ymchwil - tuag at sail dystiolaethol ar gyfer gweithredu
- Methodoleg - nodyn
  - Cyflawni Amcanion yr Adroddiad 10
- Dadansoddiad
  - Nodyn Atgoffa - Democratiaeth a Llywodraethu Lleol 10
  - Patrwm Gwirfoddoli 11
    - Lleoli ein diddordeb 12
    - Ymgysylltiad gwleidyddol 13
  - Pobl sy'n Gwirfoddoli
    - Hunaniaeth Gwirfoddolwr/wraig 15
    - Pobl Hŷn sy'n Gwirfoddoli 16
    - Pobl hŷn ac ymgysylltiad dinesig 18
    - Sylwadau pellach 20
- Rhwystrau i Ymgysylltiad Dinesig i Bobl Hŷn
  - Allgáu Cymdeithasol a Rhwystrau i Ymgysylltiad 20
  - Mathau o Rwystrau i Ymgysylltiad Dinesig i Bobl Hŷn 20
    - Diffyg adnoddau personol 21
    - Diffyg cymhelliant 23
    - Profiadau negyddol blaenorol 23
    - Materion diwylliannol 24
  - Crynodeb o'r Rhwystrau - Atebion Posibl 25
  - Defnyddio Tabl 4 25
    - Senario - y cyswllt cyntaf 26
- Rhwystrau i Ymgysylltiad - Safbwynt Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus 27
- Storïau am Lwyddiant Ymgysylltiad Dinesig
  - Adroddiadau 29
  - Canllawiau a Safonau Arfer Da 31
- Ystyriaethau Pellach 32
- Sylwadau i Gloi 33
- Nodiadau 33

Cyfeiriadau 35
Llyfryddiaeth 37

Adran 3
Gwybodaeth Gyfeirio Ychwanegol
Rhestr Termau 39
Mathau o Ymgysylltiad 40
Deunydd Darllen a Awgrymir 43

Atodiadau 46

## TABLAU A FFIGYRAU

Blwch Tystiolaeth A - mathau o ymgysylltiad 5
Blwch Tystiolaeth B - ymgysylltiad â phobl hŷn a dinasyddion 7
Blwch Tystiolaeth C - rhwystrau i ymgysylltiad 8
Ffigur 1 - amrywiaeth o gymdeithas ddinesig a chymdeithas sifil 12
Tabl 1 - gweithredu gwleidyddol a gofnodwyd, 1986-2000 13
Tabl 2 - ystadegau ar gyfer mynd yn hŷn yn Darlington (GOLD) 13
Blwch Tystiolaeth 1 - gwirfoddoli a democratiaeth 14
Tabl 3 - canfyddiadau ymchwil dethol am hunaniaeth gwirfoddolwyr 15
Blwch Tystiolaeth 3 - gwirfoddolwyr hŷn 18
Blwch Tystiolaeth 4 - ymgysylltiad â phobl hŷn a dinasyddion 19
Ffigur 2 - nodweddion allgáu cymdeithasol 21
Tabl 4 - tuag at oresgyn rhwystrau i ymgysylltiad 26
*Ffig1* - achosion gwirfoddoli parhaol 55

# ADRAN 1

## Crynodeb Gweithredol

### DIBEN

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â thri o'r prif amcanion a restri ym Mhrosiect Ymchwil Ymgysylltu â Dinasyddion 50$^{+}$ (gweler Atodiad 1):

- Adolygu ymchwil presennol i nodi rhwystrau sefydledig clir sy'n rhwystro neu'n atal pobl sy'n 50 oed a hŷn rhag cymryd rhan mewn ymgynghoriadau, prosiectau ymgysylltu a phrosesau gwneud penderfyniadau.
- Adolygu ymchwil presennol i nodi yr hyn y gwelwyd ei fod yn gweithio a'r hyn NAD yw wedi gweithio wrth geisio ymgysylltu'n effeithiol â phobl sy'n 50 oed a hŷn
- Llunio adroddiad unigolyn lleyg syml "darllenadwy" sy'n gwneud argymhellion, i'r grŵp gorchwyl a gorffen, ynglŷn â'r rhwystrau allweddol i bobl sy'n 50 oed a hŷn ac a allai helpu i wneud gwahaniaeth sylweddol i ymgysylltiad pe baent yn cael eu dileu neu eu lleihau.

### YMGYSYLLITAD A DIFFINIADAU ERAILL

Mae'r Rhestr Termau (t.38) yn rhestru termau a ddefnyddir yn gyffredin yng nghyd-destun dinasyddiaeth. Mae'r rhestr yn cynnwys diffiniadau gweithio - gobeithio y byddant yn ysgogi trafodaeth.

O ran 'Ymgysylltiad', rydym yn ei ddeall fel a ganlyn:

- ***mae gan ymgysylltiad*** fwy neu lai yr un ystyr â ***chynnwys*** neu ***gyfranogiad***;
- mae gan bobl ***lefelau*** o ymgysylltiad / cynnwys / cyfranogiad, sy'n amrywio, dyweder, o ddarllen cylchlythyr i olygu cylchlythyr fforwm pobl hŷn;
- gall sefydliadau sector cyhoeddus ddarparu gwahanol ***fathau*** o ymgysylltiad, er enghraifft, drwy sefydlu ymgynghoriadau ystyrlon neu ariannu rheithgor o ddinasyddion;
- mae angen lefel fwy helaeth ymgysylltiad ar rai fathau o ymgysylltiad, er enghraifft, cadeirio fforwm pobl hŷn;
- 'mae dau ben yn well nag un' – mae ymgysylltiad yn ymwneud â chydberthnasau.

Mae *Blwch Tystiolaeth A* yn dangos rhai o'r mathau o ymgysylltiad wedi'u grwpio yn ôl pa mor aml y cânt eu defnyddio. Mae adran 3 (t.39) yn rhoi manylion pellach.

O ran 'Dinasyddiaeth Weithgar', Mae 'Together We Can' yn awgrymu'r diffiniad hwn:

“Dinasyddion yn manteisio ar gyfleoeodd i gymryd rhan weithgaryn y broses o ddiffinio a mynd i'r afael â phroblemau eu cymunedau a gwella eu hansawdd bywyd.”

Er y byddwn yn cadw darlun ehangach dinasyddiaeth mewn cof, prif ffocws y prosiect hwn yw'r agwedd ddinesig ar ddinasyddiaeth - yn arbennig y cysylltiadau rhwng pobl a'u llywodraeth leol.

| **Bwlch Tystiolaeth A – mathau o ymgysylltiad ar gyfer dinasyddion hŷn**<br>***Ymgysylltiadau a restrir gan Adroddiad BGOP / PSI (2007)*** |
|---|
| • Cylchlythyron/cyhoeddiadau gwybodaeth |
| • Arolygon adborth defnyddwyr |
| • Digwyddiadau a gwyliau cymunedol |
| • Cynrychiolaeth y sectorau gwirfoddol a chymunedol |
| • Fforymau Pobl Hŷn |
| • Paneli Dinasyddion |
| • Eirolwyr Pobl Hŷn |
| • Cynrychiolaeth grwpiau llywio |
| • Cynrychiolaeth Partneriaeth Strategaeth Leol |
| • Cyfarfodydd bwrdd/cyfreddinol agored |
| • Sesiynau mewn canolfannau dydd/ hamdden |
| ▪ Cynrychiolaeth cynllunio/adfywio cymunedol |
| ▪ Sesiynau gyda grwpiau diwyllianno/ffydd |
| ▪ Ymgynghori â dinasyddion hŷn ‘arbenigol’ |
| ▪ Dinasyddion hŷn fel ymchwilwyr cyfranogol |
| ▪ Dinasyddion hŷn fel cyd-fentoriaid/archwilwyr cyfoedion |
| ▪ Dinasyddion hŷn fel asiantau darparu gwasanaethau |
| ▪ Banciau maser neu ffurfiau eraill ar gydgynhyrchu |
| ***Arloesiadau Democrataidd (a ddewiswyd o Ymchwiliad Power)*** |
| * **Arloesiadau Ymgynghori**<br>- cynllunio go iawn<br>- theatr cyfranogol |
| * **Arloesiadau Ystyriol**<br>- Rheithgorau Dinasyddion (DIY)<br>- Cynad leddau consenswsJ |
| * **Arloesiadau Cyd-lywodraethau**<br>- Cyllidebu cyfranogol |
| * **Arloesiadau E-ddemocratiaeth** |

**Allwedd:**
● **- defnyddir yn aml**
■ **- defnyddir yn llai aml**
*** - prin y'u defnyddir**

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

1. Ychydig iawn o bobl hŷn sy'n ymgysylltu'n helaeth fel dinasyddion. Nid yw hyn yn golygu nad yw pobl hŷn yn gweithredu yn eu cymunedau. Mae'n golygu mai prin yw'r bobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau lleol, er enghraifft.

2. Mae'n annhebygol y bydd cynnydd sydyn yn nifer y bobl hŷn sy'n ymgysylltu'n llawn fel dinasyddion. Cyflawnir cynnydd mewn dinasyddiaeth orau mae'n siŵr, drwy ddefnyddio cyfuniad o ddulliau presennol a newydd o oresgyn y rhwystrau i ymgysylltiad.

3. Mae ffyrdd traddodiadol o ymgysylltu wedi tueddu i gyfathrebu â phobl hŷn fel un grŵp o bobl. Mae lle i'r mathau traddodiadol o ymgysylltu ond mae angen cydnabod eu cyfyngiadau.

4. Mae'r ffyrdd newydd o ymgysylltu a phobl hŷn yn fwyaf tebygol o lwyddo os caiff pobl hŷn eu trin fel unigolion. Mae angen personoli unrhyw wahoddiad i ymgysylltu'n fwy fel dinesydd.

5. Mae dau fath sylfaenol o rwystr i ymgysylltiad.

Yn gyntaf, am nifer o resymau, efallai na fydd pobl hŷn yn gallu cymryd mwy o ran gweithgar fel dinesydd, neu ddim am wneud. Manylir ar y rhesymau isod o dan pwyntiau 6 a 7.

Yn ail, efallai na fydd sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gallu ymgysylltu â phobl hŷn fel dinasyddion, neu ddim am wneud hynny. Roedd ystyried y mater hwn yn ffocws eilaidd o'r cam hwn o'r prosiect, ond cofnodir canfyddiadau cyfyngedig isod o dan pwynt 8.

6. Mae tystiolaeth o grynhoir o amrywiaeth o ffynonellau yn darparu'r proffil o berson hŷn sydd fwyaf tebygol o ymgysylltu'n llawn fel dinesydd gweithgar. *Mae Blwch Tystiolaeth B* yn dangos y canfyddiadau hyn.

   Mae'n bwysig darllen *Blwch Tystiolaeth B* yn ofalus. Ni fwriedir iddo gynrychioli darlun o'r dinesydd gweithgar 50 oed neu hŷn delfrydol.

   *Mae Blwch Tystiolaeth B* yn ymwneud â thebygolrwydd nodweddion unigolyn penodol. Mae'r dystiolaeth hon yn ein helpu i ddeall pam bod cyn lleieid o bobl hŷn yn ymgysylltu'n llawn fel dinasyddion.

   Mae'n ddefnyddiol meddwl am *Flwch Tystiolaeth B* fel rhywbeth sy'n dweud wrthym am y bobl sydd wedi osgoi'r rhwystrau i ymgysylltiad. Os ystyriwn bethau yn y ffordd hon, gallwn wneud awgrymiadau ynglŷn â helpu pobl hŷn i ymgysylltu yn fwy gweithgar os ydynt am wneud hynny.

   Mae'r proffil hwn yn ddefnyddiol nid yn unig i nodi'r rhwystrau i ymgysylltiad dinesig i bobl hŷn, yn ogystal â llywio strategaethau recriwtio.

**Blwch Tystiolaeth B - Ymgysylltu â Phobl Hŷn a Dinasyddion**

Ni chynhyrchodd y chwiliad llenyddiaeth unrhyw ymchwil benodedig i ymgysylltu â phobl hŷn a dinasyddion y gellid ei ddefnyddio'n uniongyrchol yn prosiect hwn.

Mae darlun - eithaf bras - o'r dinesydd hŷn yr ymgysylltir ag ef yn ymddangos fel rhywun sydd:

- ⇒ Mewn lleiafrif, dyweder, o un i gant ar gyfer y mathau mwyaf gweithgar o ymgysylltu.
- ⇒ Yn 65 oed ar gyfartaledd.
- ⇒ Yn cyfrannu mwy o amser o lawer i wirfoddoli na'r dinesydd arferol.
- ⇒ Â phersonoliaeth pro-gymdeithasol - hynawsedd, cymwynasgarwch, empathi a sefydlogrwydd emosiwynol.
- ⇒ Wedi'i ysgogi gan fuddiannau dwy-ffordd ymgysylltiad dinesig - cael iechyd a lles personol yn gyfnewid am roi amser ac egni i'r gymuned yn gyffredinol.
- ⇒ Wedi cael lefelau addysg uwch na'r gyfartaledd
- ⇒ Mewn cyflwr iechyd da.
- ⇒ Ag adnoddau ariannol digonol.
- ⇒ Yn weithgar yn gymdeithasol.
- ⇒ Â chredoau crefyddol
- ⇒ Â gwerthoedd allgarol ac anfaterol

Mae angen pwysleisio bod yr uchod yn debygol.

Mae angen addasu neu ddiwygio'r ddelwedd, ystrydebol o bosibl, o'r dinesydd hŷn ymgysylltiedig yn unol â chyd-destunau lleol. Er enghraifft, yn Ne Cymru mae llawer o undebwyr llafur sy'n ddinasyddion gweithgar ond nid yw’r nodweddion uchod o reidrwydd yn berthnasol iddynt.

7. Gellir rhestru'r rhwystrau i ymgysylltu'n ddinesig â phobl hŷn fel:
    - Diffyg adnoddau personol
    - Diffyg cymhelliant
    - Profiadau negyddol blaenorol
    - Materion Diwylliannol

   *Mae Blwch Tystiolaeth C* yn cynnig dull ar gyfer trafod rhwystrau pobl i ymgysylltu â dinasyddion 50 oed a hŷn.

| **Blwch Tystiolaeth C - Rhwystrau i ymgysylltiad, barn unigolyn hŷn** (am fwy o fanylion, gweler tudalennau 22 i 25) |
|---|
| Diffyg adnoddau personol (nodyn 1) |
| - Addysg a sgiliau |
| - Arian |
| - Iechyd corfforol a meddyliol |
| - Symudedd a thrafnidiaeth |
| - Anabledd a namau ar y synhwyrau |
| - Hyder cymdeithasol a hunan-barch |
| - Cysylltiadau cymdeithasol |
| - Amser |
| |
| Diffyg cymhelliant |
| - Dim gwybodaeth am fuddiannau cyfranogiad |
| - Ddim yn ymwybodol o gyfleoedd cyfranogiad dinesig |
| - Nid yw'r materion a drafodir o ddiddordeb mawr |
| |
| Profiadau negyddol blaenorol |
| - Cyfarfodydd anfoddhaol |
| - Ymgynghoriadau gormodol |
| - Methiant cynghorau i wrando |
| - Canfyddiad o gam-drin |
| - Disgwyliadau heb eu bodloni |
| - Arafwch / syrthni biwrocratiaeth |
| |
| Materion Diwylliannol |
| - Grwpiau lleiafrifol |
| - Yr unigolion arferol |
| - Iaith a llythrennedd |
| - Gwerthoedd a chredoau |
| - Ffurf a dull ymgysylltu |
| - Rhaniadau cymunedol |

7. O safbwynt sefydliadau'r sector cyhoeddus, mae'r ymchwil yn nodi:

   - rhywfaint o symudiad tuag at greu cyfleoedd ar gyfer mathau newydd o ymgysylltu;
   - canolbwyntio ar ymgysylltiad ‘prynwriaethol’ mewn cysylltiad ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus;
   - tueddiad cyffredin i weld y cyhoedd fel pobl ddifater
   - diffyg adnoddau - ariannol, arbenigol ac amser - i sefydlu cydberthnasau ymgysylltu hirdymor.

8. O ran 'yr hyn sy'n gweithio', mae'r defnydd o'r strategaeth gyffredinol a'r strategaeth wedi'i thargedu yn allweddol i oresgyn y rhwystrau i ymgysylltu â dinasyddion. Gellir nodi'r strategaeth hon fel:

a. **Parhad / Cynaliadwyedd**. Parhau â'r hyn a fu'n rhannol lwyddiannus, e.e. y Fforymau. Sicrhau y cânt eu cefnogi yn y fath fodd fel eu bod yn goroesi, ond nad yw'n effeithio ar eu hannibynniaeth. Ni ddylai'r Fforymau fod yn rhwystr i ymgysylltu.

b. **Personoli** Mae llunio cydberthnasau â phobl hŷn sy'n 'enghreifftiau da' yn allweddol: gwahoddiadau personol i ymuno ag ymgysylltiad dinesig; dathlu gwahaniaeth; datblygu cyswllt cyntaf cwyn; goresgyn ofn pobl o fod yn annigonol drwy fentora a hyfforddiant sensitif; mynd i'r afael â rhwystrau personol pobl hŷn i ddinasyddiaeth llawnach drwy gydnabod ac ymateb yn uniongyrchol i'w hanghenion.

9. Mae'r defnydd o'r egwyddor strategol hon ynghyd â'r defnydd o *Flwch Tystiolaeth C* y tabl am y rhwystrau i ymgysylltu â dinasyddion yn fwyaf tebygol o lwyddo os:

- caiff y gwirionedd mai ychydig iawn o bobl hŷn sy'n debygol o 'ymgysylltu'n llwyr' fel dinasyddion ei dderbyn;
- cydnabyddir a derbynnir lefelau gwahanol o ymgysylltiad – ond heb dybio y bydd pobl yn 'dringo ysgol dinasyddiaeth' o reidrwydd;
- deellir cefndir ac anghenion unigolion a gweithredir arnynt;
- ceir amrywiaeth o fathau o gyfranogiad a'u bod yn dod yn arfer safonol o ran ymgysylltu â dinasyddion;
- gwneir defnydd ystyrlon o'r dulliau presennol ar gyfer gweithgareddau cyfranogol;
- cydnabyddir yr heriau sy'n cyd-fynd ag ymgysylltu â dinasyddion yn llawn.

10. Yn y bôn, mae'n ymwneud â gwahanol ddulliau ar gyfer gwahanol bobl. Dylid rhoi'r cyfle i bobl hŷn ymgysylltu'n llawnach fel dinasyddion mewn ffyrdd sy'n addas iddynt. Er mwyn ymgysylltu'n llawnach â rhagor o bobl hŷn fel dinasyddion, rhaid i'r sefydliadau yn y sector cyhoeddus annog diwylliant o ddinasyddiaeth drwy ddarparu cyfleoedd ac adnoddau priodol.

# ADRAN 2

# Adolygiad Ymchwil
# – tuag at sail dystiolaethol ar gyfer gweithredu

## METHODOLEG - NODYN

### Cyflawni Amcanion yr Adroddiad

Mae'r adran ar fethodoleg (gweler Atodiad 2) yn disgrifio'r ymagwedd a ddilynir ar gyfer bodloni'r tri amcan a restrir uchod. Hyd yma, ymddengys nad oes ymchwil sy'n cyfeirio'n benodol at y materion sy'n cael eu hystyried. O ganlyniad, daeth y dasg ymchwil yn un o wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth a oedd ar gael.

Creoedd y broses hon y rhestr ganlynol o gwestiynau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r adroddiad hwn:

1. Patrwm Gwirfoddoli
    a. Pa fathau o wirfoddoli sy'n bodoli?
    b. Sut mae ymgysylltiad dinesig yn cyd-fynd â phatrwm cyffredinol gwirfoddoli?
    c. Faint o bobl yr ymgysylltir â hwy ym maes llywodraethu lleol? – ac ar ba lefel?
2. Pobl sy'n Gwirfoddoli
    a. Beth a wyddom am y bobl (hŷn) sy'n gwirfoddoli?
    b. Pobl hŷn sydd â lefelau uchel o ymgysylltiad dinesig - a wyddom unrhyw beth amdanynt?
    c. Pam fod pobl yn gwirfoddoli'n gyffredinol ac yn benodol?
3. Rhwystrau i ymgysylltiad
    a. Beth yw'r rhwystrau i ymgysylltiad?
    b. A wyddom unrhyw beth am bobl sydd wedi goresgyn y rhwystrau i ymgysylltiad?
    c. O ran y bobl hynny nad ymgysylltir â hwy, a wyddom beth sy'n atal hynny rhag ddigwydd?
4. Storïau am Lwyddiant Ymgysylltiad Dinesig
    a. Honiadau ymgysylltiad dinesig llwyddiannus – beth am y dystiolaeth?
    b. A oes ffyrdd a brofwyd o oresgyn y rhwystrau i ymgysylltiad dinesig?

## DADANSODDIAD

### Nodyn Atgoffa - democratiaeth a llywodraethu lleol

Pam fod gennym ddiddordeb mewn nifer fwy o bobl hŷn yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau?

Mae llawer o gyhoeddiadau'n dechrau gyda nodyn i'n hatgoffa am yr ysgogiad ar gyfer y diddordeb diweddar mewn ymgysylltiad dinesig. Y prif bryder yw iechyd a chynaliadwyedd y broses ddemocrataidd sy'n ategu ein ffordd o fyw mewn un ffordd neu'i gilydd.

Mae hefyd yn werth cofio bod dinasyddiaeth yn cynnwys gweithgareddau gorfodol a gwirfoddol. Rhaid i ni dalu treth. Rydym yn gwirfoddoli i fynychu cyfarfod cyhoeddus. Yr ail fath o weithgaredd sydd o ddiddordeb i ni fwyaf.

**Patrwm gwirfoddoli - rhai ystyriaethau cyffredinol**

Bod yn wirfoddolwr codi arian ar gyfer yr RNLI
Bod yn aelod gwirfoddol o griw bad achub.
Mae cryn wahaniaeth!

Mae gwahaniaeth hefyd rhwng llofnodi deiseb a chadeirio fforwm pobl hŷn - heb amheuaeth.

Hyd yn oed gyda sefydliad gwirfoddol unigol, bydd amrywiaeth sylweddol r o ran rolau, cyfrifoldebau ac ymddygiad. Bydd gwahaniaeth hefyd rhwng y mathau o sefydliadau gwirfoddol.

Mae hyn hefyd yn gymwys i gyd-destun ymgysylltiad dinesig - mae '*Ysgol Cyfranogiad Dinesig'* Arnstein yn fodel da o faint yr amrywiaeth honno (nodyn 2).

I ddechrau mae'n werth atgoffa ein hunain nad oes y fath beth â damcaniaeth gyffredinol am ymddygiad dynol neu fywyd cymdeithasol. Yn yr un modd, nid oes damcaniaeth gyffredinol am wirfoddoli.

Drwy ystyried *patrwm gwirfoddoli* gallwn ddechrau deall y tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng ymgysylltiad dinesig a mathau eraill o weithgaredd gwirfoddol.

Dyma rai ffeithiau a ffigurau sy'n rhan o stori gwirfoddoli yn Lloegr:

- Mae merched yn cymryd mwy o ran mewn gwirfoddoli anffurfiol na dynion, e.e. mynd â phlant cymydog i'r ysgol. (Merched: 41%. Dynion:32%)
- Mae merched a dynion yn fwy cyfartal o ran gwirfoddoli ffurfiol. (Merched: 31%. Dynion: 27%)
- Mae'r grŵp 75 oed a hŷn yn gwirfoddoli llai nag unrhyw grŵp oedran arall.

(Ffynhonnell: Murphy et al 2005)

Am funyd, gadewch i ni ychwanegu neges wahanol i'r ffaith hon am bobl hŷn. Mae canfyddiadau ymchwil o wledydd eraill yn awgrymu mai pobl hŷn oddeutu 65 oed sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf sylweddol i wirfoddoli o'r grwpiau oedran i gyd.

***Lleoli ein diddordeb - cwmpas gweithgareddau sifil a dinesig***

Mae gennym ddiddordeb mewn ymgysylltu â phobl 50 oed â hŷn nad ydynt ond wedi cymryd rhan ymylol yn y broses ddemoctrataidd yn flaenorol. Mae'r math o ymgysylltiad a ddymunir yn benodol: ymgynghori, prosiectau ymgysylltu a'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r tri gweithgaredd hyn yn gofyn i aelodau'r cyhoedd *roi* o'u hamser yn wirfoddol a rhoi adnoddau personol eraill efallai, fel arbenigedd.

A yw ymgysylltiad dinesig fel unrhyw fath arall o wirfoddoli?
Neu a yw'n arbennig?


Un o nodweddion gwirfoddoli yw ei amrywiaeth fawr. I roi rhai enghreifftiau: pregethu lleyg, gweithio mewn siop elusen, casglu o ddrws i ddwrs ar gyfer ymgyrch, gofalu am gath cymydog a bod yn glaf arbenigol. Yn y prosiect hwn, nid oes diddordeb uniongyrchol gennym yn yr enghreifftiau hyn - na'r cannoedd o enghreifftiau eraill. Ond eto, efallai bod diddordeb gennym yn anuniongyrchol. Er enghraifft, a yw'r person sy'n gweithio mewn siop elusen ac yn gofalu am gath cymydog yn ddewis gwell na'r cyfartaledd ar gyfer ymgysylltu â llywodraethu lleol?

Cynhyrchwyd *ffigur 1* i lywio trafodaethau. Mae'r ffigur yn ceisio ein hatgoffa bod angen cynnwys ein pryder am ymgysylltu â phrosesau democrataidd, gan gynnwys llywodraethu lleol, o fewn y darlun ehangach.

Mae darllen *Ffigur 1* o'r brig i'r gwaelod yn ein hatgoffa o 'ysgol Arnstein': a oes lefelau o ymgysylltu?

Os darllenwn *Ffigur 1* ar draws y llinell uchaf, mae'r cwestiwn canlynol yn codi: a yw rhai pobl hŷn yn weithgar ym maes gwleidyddiaeth, eu sefydliadau cymunedol a gwirfoddol yn ogystal â chrefydd?

**Ffigur 1: Amrywiaeth Cymdeithas Ddinesig a Chymdeithas Sifil**



Sut mae pobl hŷn sydd mor weithgar - y term a ddefnyddir yn aml yn Saesneg, sydd braidd yn annheg, yw 'the usual suspects' - yn rhannu eu hadnoddau rhwng cymaint o ymrwymiadau?
Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos nad oes ateb i'r cwestiwn hwn.

***Ymgysylltiad Gwleidyddol***

Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu mai dim ond nifer fach o bobl sydd â lefel uchel o ymgysylltiad gwleidyddol.

- Yn Lloegr, mae llai na thri o bob cant o oedolion wedi'u dosbarthu yn bobl yr ymgysylltir â hwy yn ddinesig. Cymharwch y ffigur hwn â'r hanner cant o bob cant o bobl sy'n nodi eu bod yn weithgar yn eu cymunedau. (ffynhonnell: Leach et al 2005). Hynny yw, mae 'gwirfoddoli cymunedol' yn fwy poblogaidd o lawer na 'gwirfoddoli dinesig' (gweler nodyn 3)

- Mae adroddiad diweddar gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (2007) yn cynnwys y tabl hwn:

| **Tabl 1: Gweithredu gwleidyddol a gofnodwyd, 1986-2000** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **% yn nodi iddynt weithredu** | **1986** | **1989** | **1991** | **1994** | **2000** |
| Llofnodi deiseb | 34 | 41 | 53 | 39 | 42 |
| Cysylltu â'u AS | 11 | 15 | 17 | 14 | 16 |
| Cysylltu â'r radio, teleu neu bapur newydd | 3 | 4 | 4 | 5 | 6 |
| Mynd i brotest neu wrthdystiad | 6 | 8 | 9 | 9 | 10 |
| Siarad â pherson dylanwadol | 1 | 3 | 5 | 3 | 4 |
| Cysylltu ag Adran o'r Llywodraeth | 3 | 3 | 4 | 3 | 4 |
| Ffurfio grŵp o bobl o'r un farn | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 |
| Codi'r mater mewn sefydliad y maent eisoes yn aelod ohono | 5 | 4 | 5 | 4 | 5 |
| Dim o'r uchod | 56 | 48 | 37 | 53 | 47 |
| **Sail** | **1548** | **1516** | **1445** | **1137** | **2293** |
| ffynhonnell: Bromley et al 2001: 201 tabl 9.1 | | | | | |

Mae'r ffigurau hyn yn rhan o ddarlun sy'n dangos bod ymgysylltiad gwleidyddol yn amrywio o ran math, e.e. cysylltu ag AS, a niferoedd, e.e. tua 2 neu 3 o bob cant yn ffurfio grŵp o bobl o'r un farn.

- Mae *Adroddiad Joseph Rowntree* 2006 yn ystyried cyfranogiad pobl hŷn yn benodol mewn mentrau polisi a chynllunio. Seiliwyd un o'r astudiaethau achos ar brosiect 'Growing Older in Darlington' (GOLD).

  **Tabl 2:** Ystadegau ar gyfer 'Growing Older in Darlington' (GOLD)

| | |
|---|---|
| Poblogaeth breswyl dros oedran ymddeol | 19, 212 |
| Aelodaeth GOLD | 385 |
| Aelodau gweithgar | (tua) 40 |

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod prosiect GOLD wedi'i drefnu'n dda, wedi'i gynllunio'n ystyrlon gydag adnoddau digonol. Er hynny, dim ond tua 2 o bob cant o'r boblogaeth sydd wedi ymddeol sydd ar gronfa ddata aelodaeth GOLD. Hefyd, dim ond tua 1 o bob 500 sydd wedi'u dosbarthu yn bobl 'weithgar'.

- Mae'r ffigurau ar gyfer aelodaeth y Fforwm Pobl Hŷn yng Nghymru yn unol â'r ffigurau yn Darlington. Mewn dwy ardal awdurdod lleol yng Nghymru roedd ychydig llai nag un o bob cant o bobl dros oedran ymddeol yn aelodau o'r fforwm. Yn debyg i Darlington, ychydig iawn ohonynt oedd yn aelodau gweithgar.

**Blwch Tystiolaeth 1 - gwirfoddoli a democratiaeth**

Mae gwirfoddoli ym maes llywodraethu lleol yn gymharol amhoblogaidd.

Gan gofio Ysgol Arnstein o ran lefelau ymgysylltu:
wrth i'r lefel ymgysylltu godi, mae nifer y bobl sy'n weithgar yn gostwng.

Yn bwysig iawn, ar gyfer ein *Prosiect Ymchwil Gweithredu Ymgysylltiad 50 oed a hŷn*, bydd angen i ni ystyried mai dim ond dau o bob cant o bobl hŷn fydd yn cymryd rhan weithgar yn y broses gwneud penderfyniadau.

**Pobl sy'n gwirfoddoli**

Yn yr adran hon, y nod yw llunio casgliad o ddisgrifiadau y gellid eu defnyddio i nodi 'enghreifftiau da' o ran recriwtio pobl i ymgysylltu yn ddinesig. Yna gellir defnyddio'r disgrifiadau hynny i lywio'r drafodaeth am rwystrau i ymgysylltiad dinesig. Digon yw dweud bod y materion yn rhai cymhleth ac nad ymchwiliwyd ddigon iddynt (Nodyn 4).

Mae ymchwil presennol yn dosbarthu pobl mewn un ffordd neu fwy:

- oedran a rhyw;
- personoliaeth;
- cymhelliannau;
- adnoddau a ‘chefndir’, megis: incwm, cymorth cymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol:
- credoau a gwerthoedd.

Ychwanegwyd nodweddion eraill atynt, gan gynnwys (Nodyn 5):

- llwybr bywyd, er enghraifft newid incwm ar ôl ymddeol;
- ffactorau sefyllfaol, er enghraifft arbenigedd gwirfoddoli ar gyfer elusen neu amser a wirfoddolwyd ar gyfer ymgysylltiad dinesig.

***Hunaniaeth Gwirfoddolwr/wraig***

Mae ymchwilwyr wedi gwneud cynnydd o ran disgrifio nodweddion arferol pobl sy'n gwirfoddoli. Weithiau defnyddir y term 'hunaniaeth Gwirfoddolwr/wraig' i olygu bod rhai pobl yn addas at y diben. Yn debyg i heddwas neu athro, daw'r swydd yn rhan annatod ohonynt.

Mae *tabl 3* yn arddangos detholiad o ganfyddiadau'r ymchwil.

Mae'r dyfyniadau canlynol yn rhoi manylion:

O ran personoliaeth, mae Lodi-Smith a Roberts (2007, t.80) yn dod i'r casgliad: “people who invest in more in social institutions tend to be warmer, more responsible and organized, and less anxious and depressed than others.”

Mae Finkelstein et al (2005, t.414) yn codi'r pwynt diddorol, sef unwaith y mae person wedi sefydlu hunaniaeth Gwirfoddolwr/wraig cydnabyddedig, yna maent wedi'u hysgogi i weithredu i'w chynnal: “… individuals who are most likely to engage in ongoing, discretionary helping are those who have internalized a prosocial role and who strongly feel that other people expect them to continue in a manner consistent with that role.”

**Tabl 3: Canfyddiadau ymchwil dethol am hunaniaeth gwirfoddolwyr**

| **Dosbarth** | **Canfyddiadau ymchwil dethol ar gyfer hunaniaeth gwirfoddolwyr** |
|---|---|
| Personoliaeth | ▪ mae'r llenyddiaeth yn aml yn cyfeirio at ‘bersonoliaeth pro-gymdeithasol’<br>▪ mae'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r math hwn o bersonoliaeth yn cynnwys: hynawsedd, cymwynasgarwch, cydwybodolrwydd (amheus), sefydlogrwydd emosiwynol ac empathi.<br>(ffynonellau: Penner 2002; Bekkers 2005; Lodi-Smith a Roberts 2007) |
| Cymhelliant | ▪ buddiannau iechyd a lles personol canfyddedig, (cyswllt cadarnhaol gwrthrychol wedi ei sefydlu ar gyfer gwirfoddoli ffurfiol)<br>▪ helpu eraill er mwyn glynu wrth gredoau a gwerthoedd<br>▪ mae agweddau'n cynnwys: hunan-barch, cydberthnasau cymdeithasol a mwynhad<br>(ffynonellau: Penner 2002; Finkelstein et al 2005; Li a Ferraro 2005; Malin 2005; Finkelstein 2006; Tang 2006; Li a Ferraro 2006) |
| Adnoddau a chefndir | ▪ mae lefelau addysg uwch (amheus) ac ymlyniad crefyddol yn gysylltiedig â lefelau uwch na'r gyfartaledd o wirfoddoli<br>▪ mae iechyd gwael, incwm isel a rhwydweithiau cymdeithasol cyfyngedig yn cyfyngu gweithgaredd gwirfoddol ffurfiol |

| | |
|---|---|
| | (ffynonellau: Penner 2002; Bekkers 2005; Kloseck et al 2006;Tang 2006) |
| Credoau a gwerthoedd | ▪ credoau crefyddol<br>▪ allgaredd<br>▪ gwerthoedd ôl-faterol<br>(ffynonellau: Penner 2002; Bekkers 2005) |

Mae Penner (2002, t. 454) yn taflu goleuni ar y dosbarthiadau sy'n weddill yn *Nhabl 3*: “Active volunteers and non-volunteers did not differ with respect to age, education, gender or income. [But] … people who belonged to an organized religion were more likely to be volunteers (80 percent) than people who did not belong (62 percent) …”

Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r ymchwil o'r astudiaethau amrywiol yn gwrthdaro â'i gilydd yn ôl pob golwg. Mae rhan o'r broblem yn codi o'r diffiniadau o wirfoddoli a ddefnyddir. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae angen dehongli'r ymchwil. Pan caiff ei ddefnyddio yng nghyd-destun pobl hŷn, ynghyd ag ymchwil penodol, mae'n bosibl amlinellu proffil ar gyfer gwirfoddolwyr hŷn - fel y nodir isod.

Daw'r rhesymau dros ddefnyddio'r ymadrodd Saesneg 'the usual suspects' yn fwy clir. Yn syml, mae pobl y gellir mynd atynt sy'n adnabyddus am eu hargaeledd a'u parodrwydd i gymryd rhan. Mae ymchwil diweddar Blakey et al (2006) yn adlewyrchu gwirionedd bodolaeth y pobl hyn. Fodd bynnag, cynigiodd yr awduron hyn gynigion synhwyrol ar gyfer mynd y tu hwnt i'r bobl hyn - cynigion a gaiff eu hystyried yn ddiweddarach.

***Pobl hŷn sy'n gwirfoddoli***

“Recruitment and retention of older volunteers are important areas that require further examination.”

(Kloseck et al 2006, t.88)

Er gwaetha'r diffyg tystiolaeth helaeth am recriwtio a chadw gwirfoddolwyr hŷn, mae ymchwil a all fod yn ddefnyddiol i lywio'r *Prosiect Ymgysylltu â Dinasyddion 50+*. Mae'r sylwadau hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer yr agwedd 'llwybr bywyd' lle y cydnabyddir yn llawn y gwahaniaethau a'r newidiadau sy'n gysylltiedig â heneiddio'n llawn. Fel enghraifft syml, mae gwirfoddoli'n 55 oed yn annhebygol o fod yn debyg i wirfoddoli'n 95 oed.

Mae cysylltu'r agwedd llwybr bywyd hon â *Thabl 3* yn taflu goleuni ar y rhwystrau i ymgysylltiad ar gyfer rhai pobl hŷn. Er enghraifft, pobl hŷn a oedd wedi sefydlu hunaniaeth Gwirfoddolwr/wraig gref yn flaenorol, ond sy'n ddiffygiol bellach o ran adnoddau ariannol ac adnoddau eraill i gynnal yr hunainaeth honno, ac sydd wedi colli'r ymdeimlad o les. Yna daw canolbwyntio ar adnoddau pobl hŷn ar gyfer ymgysylltiad dinesig yn un cam gweithredu posibl. Ar y llaw arall, os oes unrhyw wirionedd o gwbl yn y syniad o ‘bersonoliaeth pro-gymdeithasol’, yna nid yw'r disgwyliadau ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn gyda phersonoliaeth groes yn galonogol iawn. (nodyn 6)

Mae'r agwedd hwn ar lwybr bywyd hefyd yn ein galluogi i ail-ystyried y themau a drafodwyd gennym yn yr adran, '*Patrwm Gwirfoddoli'.* Nawr byddwn yn archwilio'r canlynol yn fwy manwl: nifer y bobl hŷn sy'n gwirfoddoli; faint o amser a dreulir ganddynt yn gwirfoddoli; y math o wirfoddoli a wnant.

Mewn astudiaeth a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, mewn cysylltiad â *'Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru'*, mae Malin (2005) yn rhoi disgrifiad sy'n llywio ein cyd-destun yn uniongyrchol. Mae'r adroddiad '…….. because they enjoy it!' yn cofnodi profiadau gwirfoddoli pobl hŷn [eu hunain]. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am niferoedd gwirfoddoli ym Mro Morgannwg ac yng Nghymru'n seiliedig ar Ymchwil Beaufort (2001). Mae Atodiad 3 yn cynnwys sylwebaeth ar y tablau a'r siartiau o'r ffrwd ymchwil hon ac yn ei chymharu a'i chyferbynu â chanfyddiadau rhyngwladol.

Mae'r pwyntiau canlynol yn crynhoi'r wybodaeth am nifer y bobl hŷn sy'n gwirfoddoli:

- Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod gweithgaredd gwirfoddoli'n lleihau ar ôl 65 oed. Ar ôl 80 oed mae gwirfoddoli'n brin.
- Cyn 65 oed mae'r dystiolaeth yn gymysg. Ym Mro Morgannwg, mae gwirfoddoli yn cyrraedd ei anterth yn yr ystod oedran 65-69 oed (Malin 2005). Yn yr UDA mae gostyngiad graddol iawn yn niferoedd y gwirfoddolwyr rhwng 35 a 64 oed (Bureau of Labor Statistics 2005).

O ran ymrwymiad i wirfoddoli, mae Tang (2006, t.377; ychwanegwyd pwyslais) yn nodi:

" … ***older volunteers were the most committed*** to volunteering, with a median of 96 hours against a median of 50 hours for all age groups (Bureau of Labour Statistics, 2005). Older adults were actively involved in volunteering with high levels of commitment ***if they had opportunities and adequate resources*** …"

Os yw'r adrannau mewn teip bras italig hefyd yn berthnasol i Gymru, yna mae hyn yn wybodaeth bwysig.

Mae Kloseck et al (2006, t.86) yn nodi canfyddiad tebyg yng Nghanada:

"… 23 per cent of Canadians aged 65 or over volunteered to work with charitable and non-profit organisations and that those who volunteered tended to be the younger seniors. While this is the lowest per cent of all groups volunteering, seniors in the National Survey contributed the highest number of volunteer hours of all age groups."

Hynny yw, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gwirfoddolwyr yn gwneud eu cyfraniad mwyaf o ran amser rhwng 60 a 75 oed yn ystod eu llwybr bywyd.

O ran y math o wirfoddoli y mae pobl hŷn yn ei wneud, ychydig iawn o wybodaeth a gafwyd o chwilio'r llenyddiaeth. Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae eu gallu i wneud gweithgareddau corfforol yn effeithio ar bobl hŷn ac mae hyn yn ffactor mewn ymchwil am 'ymarferoldeb' (e.e. Finkelstein et al 2005). A yw gwirfoddolwyr hŷn yn gwneud yn iawn am hyn drwy fabwysiadu rolau

trefniannol megis: mentora neu ymddiriedolaeth? Yn eu hastudiaeth o ragfynegwyr gwirfoddoli ac arweinyddiaeth, mae Klosek et al (2006, t.87) yn gwneud y datganiad petrus:

“The fact that very few, if any, older individuals appeared to be willing to take on leadership positions suggests that current community capacity-building approaches may not work with very old individuals with multiple and complex health conditions.” (Gweler nodyn 7)

**Blwch Tystiolaeth 3 - gwirfoddolwyr hŷn**

Mae arwyddion o'r canlynol:

⇒ Mae'r gostyngiad yn nifer y bobl hŷn sy'n gwirfoddoli ar ôl 65 oed yn cynyddu.
⇒ Mae gwirfoddoli ar ôl 80 oed yn brin.
⇒ Mae 'cnewyllyn' o wirfoddolwyr dros 60 oed yn gwneud y cyfraniad mwyaf o ran amser i wirfoddoli.
⇒ Mae adnoddau personol yn debygol o fod yn ffactor sylweddol i gynnal cyfranogiad gwirfoddol.

Mae angen ymchwil pellach ar:
⇒ 'Aml-wirfoddolwyr' hŷn - hynny yw, pobl sy'n gwirfoddoli mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, a oes pobl hŷn sy'n ymddiriedolwyr i elusen ac sy'n rhedeg clwb pel-droed ieuenctid ac sy'n weithgar mewn fforymau pobl hŷn?
⇒ Ymchwilio i gynnydd yn y math o wirfoddoli wrth i fynd drwy bywyd.. Er enghraifft, a yw pobl hŷn yn symud yn raddol o rolau gwirfoddol mwy gweithgar i rai llai gweithgar?

***Pobl hŷn ac ymgysylltiad dinesig***

Roedd yr adran flaenorol yn gymysg o ran canfyddiadau. Mae gwybodaeth eithaf dibynadwy am ddarlun cyffredinol gwirfoddoli pobl hŷn. Ond mae'n ymddangos ein bod yn ddiffygiol o ran gwybodaeth benodol y gellir sefydlu rhaglenni gweithredu arni. Yn anffodus, mae'r diffyg gwybodaeth hwn yn cynnwys ein diddordeb craidd mewn pobl hŷn ac ymgysylltiad dinesig.

Ar y wyneb, dylai'r 175 tudalen o *Adroddiad diweddar Joseph Rowntree* (Reed et al 2006) gynnwys llawer o gyngor y gellir gweithredu arno ar arfer da. Fodd bynnag, er bod y pum astudiaeth achos yn ddiddorol i'w darllen, nid oes llawer o bwyntiau penodol. Cyfeirir at bobl hŷn yn gyffredinol - fel un grŵp. Bob hyn a hyn defnyddir ymadroddion megis ‘from all walks of life’ (Reed et al 2006, t.106) ac ‘older people from various backgrounds’ (yr un cyfeiriad, p.112) Ond prin yw'r manylion y tu hwnt i'r ymdrechion gwan hyn i gategoreiddio. Yr argraff gyffredinol yw mai'r *'usual suspects'* oedd yn cymryd rhan yn y pum prosiect. Ond nid yw hynny'n golygu nad oedd y prosiectau hyn yn werthfawr mewn llawer o ffyrdd. Ond nid oes unrhyw beth newydd yma. Er hynny, caiff yr astudiaeth achos am y *Rheithgor Dinasyddion DIY* yn cael ei

hystyried cyn hir fel un sy'n cynnig cyfle ar gyfer datblygiad personol nifer cyfyngedig o unigolion.

Cynhyrchodd y chwiliad o'r llenyddiaeth un papur (Bekkers 2005, t.451) sy'n darparu datganiad cyffredinol defnyddiol am ddinasyddion gweithgar:

"The most distinctive characteristics of active citizens are their greater [personal resources], as well as their political preferences and attitudes. Civic engagement increases with the level of education, religiosity, interest in politics, and post-materialistic value orientation …"

Er gwaethaf y ffaith i'r ymchwil gael ei gynnal yn yr Iseldiroedd a bod sylwedd y dyfyniad yn gweddu mwy i'n trafodaeth am hunaniaeth Gwirfoddolwr/wraig, mae ganddi rhywfaint o ddefnydd o ran llywio cyd-destun Blwch Tystiolaeth 4.

**Blwch Tystiolaeth 4 - ymgysylltu â phobl hŷn ac ymgysylltiad dinesig**

Ni chynhyrchodd y chwiliad o'r llenyddiaeth unrhyw ymchwil penodedig am ymgysylltu â phobl hŷn ac ymgysylltiad dinesig.

Wrth ddod â'r darnau o wybodaeth a gofnodwyd uchod ynghyd, daw darlun, eithaf bras, o'r Gwirfoddolwr/wraig hŷn yr ymgysylltir ag ef yn ddinesig i'r golwg fel rhywun sydd:

⇒ Mewn lleiafrif, dyweder, o un i gant ar gyfer y mathau mwyaf gweithgar o ymgysylltu.
⇒ Yn 65 oed ar gyfartaledd.
⇒ Yn cyfrannu mwy o amser o lawer i wirfoddoli na'r dinesydd arferol.
⇒ Â phersonoliaeth pro-gymdeithasol - hynawsedd, cymwynasgarwch, empathi a sefydlogrwydd emosiynol.
⇒ Wedi'i ysgogi gan fuddiannau dwy-ffordd ymgysylltiad dinesig - cael iechyd a lles personol yn gyfnewid am roi amser ac egni i'r gymuned yn gyffredinol.
⇒ Wedi cael lefelau addysg uwch na'r gyfartaledd
⇒ Mewn cyflwr iechyd da.
⇒ Ag adnoddau ariannol digonol.
⇒ Yn weithgar yn gymdeithasol.
⇒ Â chredoau crefyddol
⇒ Â gwerthoedd allgarol ac anfaterol

Mae angen pwysleisio bod yr uchod yn debygol.

Mae angen addasu neu ddiwygio'r ddelwedd, eithaf ystrydebol, o'r dinesydd hŷn ymgysylltiedig yn unol â chyd-destunau lleol. Er enghraifft, yn Ne Cymru mae llawer o undebwyr llafur sy'n ddinasyddion gweithgar ond nid yw'r nodweddion uchod o reidrwydd yn berthnasol iddynt.

***Sylwadau pellach***

Mae *Blwch Tystiolaeth 4* yn deillio o astudiaethau sy'n pwysleisio priodoleddau pobl, fel oedran a chyrhaeddiad addysgol. Gwneir ymdrechion i gysylltu'r priodoleddau hyn â gweithredoedd penodol, fel mynychu fforwm. Nid yw'r ymdrechion hyn bob amser yn llwyddiannus - ac ni ellir defnyddio'r canlyniadau bob amser. At ddibenion y prosiect hwn, gall fod yn ddefnyddiol cofio'r hyn y mae pobl yn ei wneud, er enghraifft, cysylltu â'u AS, fel y nodir yn *Nhabl 1*. Mae'r materion hyn yn adlewyrchu problem gyffredinol ym maes gwyddor cymdeithas yn y modd y gwneir cysylltiad rhwng ymddygiad a phriodoleddau.

## RHWYSTRAU I YMGYSYLLTIAD DINESIG I BOBL HŶN

Nod yr adran hon yw nodi'r rhwystrau i ymgysylltu a phobl hŷn yn ddinesig - rhwystrau y gellir mynd i'r afael â hwy'n ystyrlon drwy ymyriadau cost effeithlon. Felly, heb fod yn benodol, ar mae cael cipolwg ar *Flwch Tystiolaeth 4* yn awgrymu efallai bod rhwystrau anorchfygol rhwng rhai pobl hŷn ac ymgysylltiad dinesig. Nid ydym yn ceisio ymgysylltu â phob person hŷn yn ddinesig. Mae hefyd angen datgan na chaiff *Blwch Tystiolaeth 4* ei ddefnyddio fel rhestr wirio i fetio pobl hŷn. I'r gwrthwyneb, gallwn ddefnyddio *Blwch Tystiolaeth 4* i greu ymyriadau cadarnhaol, megis sicrhau bod ban bobl hŷn adnoddau personol digonol i gymryd rhan yn llawn fel dinasyddion. Mae'r ffocws ar greu cyfleoed pellach ar gyfer ymgysylltiad.

### Allgáu cymdeithasol a rhwystrau i ymgysylltiad

Mae'n werth cymharu a chyferbynnu *Blwch Tystiolaeth 4* â *Ffigur 2* lle y mae 'cyfranogiad dinesig' yn ymddangos fel categori ar wahân. Yn aml, mae proffiliau pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol yn hollol wahanol i'r rhai yr ymgysylltir â hwy yn ddinesig. I ryw raddau, mae'r rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol yr un peth â'r rhwystrau i ymgysylltiad dinesig. Nid yw'n syndod, ond mae'n fan cychwyn defnyddiol wrth ystyried rhwystrau i ymgysylltiad.
Er y dylem ystyried yn Lloegr bod "43% of people at risk of social exclusion volunteered at least once a month …" (Murphy et al 2005, t.6)

Mae'r ymagwedd hon, sy'n defnyddio nodweddion pobl i lunio eu proffiliau, yn un a fabwysiadwyd yn yr adroddiad hwn. Gan ddefnyddio'r ymagwedd hon, dechreuwn weld pobl fel unigolion yn hytrach na thrwch y boblogaeth. (gweler nodyn 9)

### Mathau o rwystrau i ymgysylltu â phobl hŷn yn ddinesig

Caiff gwahanol fathau o rwystrau i ymgysylltiad dinesig eu hystyried o dan y penawdau canlynol: Daw'r wybodaeth o *Flwch Tystiolaeth 4* yn bennaf, ond defnyddiwyd ffynonellau eraill hefyd, yn arbennig, *'Customer and community engagement* briefing' (OPM 2006). Mae Smith (2005, t.105-108) yn rhoi safbwynt sefydliadol ar rwystrau i gyfranogiad.

**Ffigur 2. Nodweddion y rheini sydd wedi'u hallgáu ar bob un o'r saith dimensiwn**

| | |
|---|---|
| **Allgáu o Gydberthnasau Cymdeithasol iechyd** | Proffil nodweddiadol: **Gwryw, dim partner, byw ar ei ben ei hun, dim plant, dim chwiorydd na brodyr, gwael, iselder ysbryd, dim gweithgaredd corfforol, incwm isel, dim car, 60 oed neu'n hŷn** |
| Allgáu o Weithgareddau Diwylliannol | **Proffil nodweddiadol:** Benyw, ddim yn wyn, byw ar ei phen ei hun, dim partner, dim cymwysterau addysgol, cael budd-daliadau, incwm isel, iechyd gwael, iselder ysbryd, dim car, dim gweithgaredd corfforol. |
| Allgáu o Gyfranogiad Dinesig | **Proffil nodweddiadol:** Benyw, gwyn, 4 neu ragor o blant, dim cymwysterau addysgol neu rai yn unig ychydig, iechyd gwael, iselder ysbryd, incwm isel, byw ar ei phen ei hun, rhwng 50 a 69 oed, yn rhentu. |
| Allgáu o Wasanaethau Sylfaenol | **Proffil nodweddiadol:** 70 oed neu'n hŷn, ddim yn wyn, byw ar ei ben/phen ei hun, salwch parhaol, iechyd gwael, iselder ysbryd, dim ffôn, dim car, byth yn defnyddio trafnidiaeth. |
| Allgáu o'r Gymdogaeth | **Proffil nodweddiadol:** 4 neu ragor o blant, di-waith, iechyd gwael, iselder ysbryd, incwm isel, yn rhentu, ardal ddifreintiedig. |
| Allgáu o Gynhyrchion Ariannol | **Proffil nodweddiadol:** Iau, benyw, ddim yn wyn, yn byw gyda'i phlant a dim partner ganddi, 2 neu ragor o blant, dim cymwysterau addysgol neu rai yn unig, ddim yn gweithio, iechyd gwael, incwm isel, yn rhentu, ardal ddifreintiedig, dim car, iselder ysbryd, incwm isel, dim ffôn. |
| Allgáu o Brynu Nwyddau | **Proffil nodweddiadol:** 70 oed neu'n hŷn, gwryw, ddim yn wyn, byw ar ei ben ei hun, dim partner, dim plant, iechyd gwael, incwm isel, yn rhentu neu'n prynu llety, dim car, dim ffôn, ychydig o gymwysterau addysgol, ardal ddifreintiedig. |

[ffynhonnell: ELSA, Ton 1 - gweler nodyn 8]

### *Diffyg adnoddau personol*

Mae rhwystrau i ymgysylltiad yn codi gan nad oes gan bobl hŷn yr adnoddau personol i gymryd rhan. Er enghraifft, ni allant fforddio mynd i gyfarfod oherwydd iechyd gwael neu ddiffyg symudedd.

Addysg a sgiliau

- Gall ymgysylltiad dinesig gynnwys darllen dogfennau fel cynlluniau a pholisïau. Mae pobl hŷn sydd â lefelau llythrennedd isel o dan anfantais yn naturiol. Nid yw dogfennau yn aml yn defnyddio Saesneg/Cymraeg clir.
- Gall cyfranogiad gweithgar ofyn i chi fynegi eich barn yn glir a chan barchu confensiynau penodol. Mae profiadau dysgu addysgu bellach ac addysg uwch wedi'u cynllunio i raddau gyda hyn mewn golwg. Cymharol brin yw'r bobl yn y genhedlaeth hŷn sydd wedi cael y cyfle i gael addysg bellach neu addysg uwch.

Arian

- O reidrwydd, mae cyfranogiad dinesig yn cynnwys rhywfaint o wariant ariannol.

Iechyd corfforol a meddyliol

- Un canfyddiad ymchwil cyson yw bod iechyd corfforol gwael yn atal pob math o wirfoddoli. Gall rhai cyflyrau, megis iselder ysbryd, fod yn gymhelliant i rai mathau o wirfoddoli.

Symudedd a thrafnidiaeth

- Gellir cyfyngu ymgysylltiad dinesig pobl hŷn gan y gallu i gael gafael ar drafnidiaeth a'u diffyg symudedd personol. Er enghraifft, efallai na fydd mynychu cyfarfodydd yn fater syml.

Anabledd a namau ar y synhwyrau

- Gall dallineb, golwg rhannol a byddardod fod yn rwystrau sylweddol i ymgysylltiad dinesig, boed yn ymgynghori, prosiectau ymgysylltu neu wneud penderfyniadau.

Hyder cymdeithasol a hunan-barch

- Ni ddaeth y chwiliad o'r llenyddiaeth o hyd i gyfeiriadau ffurfiol at hyder cymdeithasol a hunan-barch.
  Awgrymwyd y ffactorau hyn ar ôl darllen fersiwn blaenorol o'r adroddiad hwn. Digon yw dweud bod y ffactorau hyn yn gwneud synnwyr fel agweddau ar 'gyfalaf dynol' – heb ymchwilio i sut y mae'r cysyniad hwnnw'n croestorri â ffurfiau eraill ar gyfalaf, e.e. ffurfiau cymdeithasol neu ddiwylliannol.

Cysylltiadau Cymdeithasol

- Efallai na fydd gan bobl hŷn y cyswllt cymdeithasol hanfodol a fyddai'n eu cysylltu ag ymgysylltiad dinesig.

Amser

- Nid oedd 'amser' yn ymddangos fel ffactor yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth, ond caiff ei gynnwys fel tystiolaeth anecdotaidd a gasglwyd o weithredu'r *Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.*

***Diffyg cymhelliant***

Mae'n bosibl y caiff gwirfoddolwyr eu hysgogi gan y wybodaeth a'r gwirionedd bod cyfranogiad dinesig yn bleserus. Nid yw pawb yn ymwybodol o hyn. Yn gyffredinol, os nad yw pobl wedi'u hysgogi mewn un ffordd neu gilydd i ymgysylltu'n ddinesig, yna mae hynny'n rwystr.

Buddiannau cyfranogiad dinesig

- Mae'r ffactor hwn yn ymwneud â chreu cylch ymgysylltu rhinweddol. Er enghraifft, os yw pobl hŷn yn unig neu'n isel eu hysbryd, yna mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd gwirfoddoli yn eu helpu i wella o'r cyflyrau hyn. Ar un llaw, mae unigrwydd ac iselder ysbryd yn rwystrau i ymgysylltiad oherwydd gallent beri diffyg cymhelliant cyffredinol. Ar y llaw arall, os caiff buddiannau ymgysylltiad dinesig eu cyfleu i berson hŷn sy'n unig neu'n isel ei ysbryd, yna, gyda'r cymorth priodol, efallai y gallant ymuno â chylch rhinweddol o wirfoddoli a lles. Os nad yw pobl hŷn yn ymwybodol o'r buddiannau iechyd a lles sy'n deillio o gyfranogiad, yna mae hynny'n rwyst posibl.

Ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ymgysylltu

- A yw pob person hŷn yn ymwybodol, er enghraifft, o fodolaeth fforymau pobl hŷn?

Nid yw'r materion a drafodir o ddiddordeb mawr

- O ran cyfranogiad cymunedol, mae Larsen (2004, t.3) yn datgan ei bod yn haws denu trigolion lleol mewn perthynas â thai, er enghraifft, na datblygiad economaidd.

***Profiadau negyddol blaenorol***

Mae pobl hŷn wedi gwneud ymdrechion i gyfranogi'n llawnach yn y broses ddemocrataidd, ond wedi teimlo rhwystredigaeth neu siom.

Cyfarfodydd anfoddhaol

- Gormod o reolaeth gan swyddogion llywodraeth leol. Wedi'u trefnu'n wael. Wedi'u cadeirio'n wael. Wedi'u cynnal mewn lleoedd anaddas. Camddefnyddio agenda. Sarhadau.

Ymgynghoriadau gormodol

- Dyblygu: gofyn yr un cwestiynau i'r un bobl dro ar ôl tro

Methiant cynghorau i wrando

- Ymgynghoriad ‘ar ôl y digwyddiad’
- Cynghorau'n anwybyddu canlyniadau'r ymgynghoriadau
- Ymgynghoriad yn ‘addurn ffenestri’ yn unig

Canfyddiad o gam-drin

- Y canfyddiad bod ymgysylltiad dinesig yn ddyfais wleidyddol i dagu anghytundeb neu brotest. (caiff y mater hwn ei ddatblygu fwy yn ddiweddarach)

Disgwyliadau heb eu bodloni

- Er enghraiff, er mwyn recriwtio rhagor o bobl i wneud ymarfer ymgysylltu, efallai y bydd temtasiwn i wneud honiadu gor-frwdfrydig am y canlyniadau dilynol. Mae ymchwil diweddar wedi pwysleisio'r angen am onestrwydd ar ran sefydliadau'r sector cyhoeddus er mwyn meithrin ymddiriedaeth. Mae angen i ddisgwyliadau fod yn realistig a chael eu rheoli'n ofalus. Er enghraifft, faint o bobl hŷn sy'n ymuno â fforymau yn credu y byddant yn newid polis pensiynau?

Arafwch / syrthni biwrocratiaeth

- I ddyfynu Jean Lane o Fforwm 50+ Caerffili:
  "… [D]ecisions are made but no action is taken. I was given the task … of rooting out age discrimination … last summer and it was decided that the 50+ Forum would review the policies of the Local Health Board and the Local Authority in terms of age discrimination. A report to WAG indicated that progress had been made on this. The only progress is the working party set up by the 50+ Forum – that is not progress on the task itself. Despite requests, no policies have been given to us other than some hurriedly collected … which were not truly relevant to age discrimination. I find the readiness to shelve things to the next meeting - two months later - irksome. Is this the bureaucratic inertia that so frustrates the general public? Any policy maker should be aware that policies will be tweaked down the line by managers who have to implement them if only to make them work, thus maintaining the status quo."

***Materion diwylliannol***

Grwpiau lleiafrifol

- Mae perthyn i grŵp lleafrifol yn golygu nad yw'r person hŷn yn dilyn y patrwm angenrheidiol. Mae cyhoeddiad diweddar 'Creu'r Cysylltiadau' (LICC 2006) yn haeddu sylw am fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr unigolion arferol

- Mynd i fforwm am y tro cyntaf a dod o hyd i glwb cysurus o bobl arferol.

Iaith a Llythrennedd

- Gall cyfranogiad dinesig gynnwys trafodaethau hir a dwys am faterion polisi anodd, sy'n defnyddio iaith technegol neu anghyfarwydd efallai.

- Yn yr un modd, mae dogfennau'n ganolog i lywodraeth a llywodraethu lleol ac nid ydynt yn nodedig am fod yn ddarllenadwy.

Gwerthoedd a chredoau

- Mae'n bosibl fod gan bobl hŷn sy'n ymgysylltu'n ddinesig werthoedd a chredoau nad yw eraill yn eu rhannu. Gall anoddefgarwch a diffyg parch greu rhwystr i ymgysylltiad dinesig.

Ffurf a dull ymgysylltu

- Mae'r ffactor hwn yn cyffredinoliad o rai o'r materion a amlygwyd o dan ‘profiadau negyddol blaenorol’. Mae'r ‘diwydiant ymgysylltu’ wedi ehangu i'r fath raddau, fel y gwelir yn ‘57 Democratic Innovations’ (Smith 2005), fel bod ymdeimlad bod y dull o ymgysylltu yr un mor bwysig ag unrhyw negeseuon. Mae p'un a fydd yr henoed yn gwerthfawrogi ymgysylltiad fel profiad diwylliannol yn bwnc dadleuol. Ond dim ond i'r rhai sydd ychydig dros 50 oed... efallai. (gweler Wilcox / blog am lawer mwy o wybodaeth am ddulliau cymdeithasol.)

Rhaniadau cymunedol

- Dyma ffactor arall a awgrymwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Prosiect. Mae'n ymddangos yn synhwyrol i wahaniaethu rhwng rhaniadau cymunedol a grwpiau lleiafrifol. Mae profiadau o gyfarfodydd cyhoeddus, er enghraifft, lle y gall rhaniadau cymunedol difrifol ddod i'r amlwg, yn nodi bod y mater hwn yn cael ei esgeuluso yn y llenyddiaeth fel rhwystr i ymgysylltiad.

**Crynodeb o'r rhwystrau i ymgysylltiad dinesig - atebion posibl**

Mae *Tabl 4* yn crynhoi'r uchod mewn ffordd y gellir ei defnyddio gan Fwrdd y Prosiect, y Grŵp Cynllunio Prosiect, Gweithdai Rhanddeiliad ac eraill i ddyfeisio atebion posibl.

**Defnyddio tabl 4**

Llywiwyd yr adroddiad hwn gan y ffaith fod ymgysylltiad dinesig yn gymharol amhoblogaidd. Nid yw ymgysylltiad dinesig yn adloniant torfol! Mae'r ffaith honno wedi llywio ein cyfeiriad cyffredinol tuag at nodi unigolion a allai rannu nodweddion penodol. Un canlyniad yw'r ddelwedd ystrydebogl o'r pobl arferol. Canlyniad arall yw *Tabl 4* gan fod hynny'n cynrychioli unigolion sy'n 'enghreifftiau da' ar gyfer ymgysylltiad dinesig, ond sydd â rhwystr o'u blaenau, megis diffyg adnoddau personol. Unwaith y nodir atebion posibl i'r rhwystrau hyn, yna mae'r dasg wedi'i chwbhlau, onid yw? ... ddim yn llwyr.

**Tabl 4: Tuag at oresgyn rhwystrau i ymgysylltiad**

| Rhwystrau i ymgysylltiad | Atebion Posibl |
|---|---|
| | |
| Diffyg adnoddau personol | |
| - Addysg a sgiliau | |
| - Arian | |
| - Iechyd corfforol a meddyliol | |
| - Symudedd a thrafnidiaeth | |
| - Anabledd a namau ar y synhwyrau | |
| - Cysylltiadau cymdeithasol | |
| - Amser | |
| | |
| Diffyg cymhelliant | |
| - Ddim yn ymwybodol o fuddiannau cyfranogiad | |
| - Ddim yn ymwybodol o gyfleoedd cyfranogiad dinesig | |
| - Nid yw'r materion a drafodir o lawer o ddiddordeb | |
| | |
| Profiadau negyddol blaenorol | |
| - Cyfarfodydd anfoddhaol | |
| - Ymgynghoriadau gormodol | |
| - Methiant cynghorau i wrando | |
| - Canfyddiad o gam-drin | |
| - Disgwyliadau heb eu bodloni | |
| - Arafwch / syrthni biwrocratiaeth | |
| | |
| Materion Diwylliannol | |
| - Grwpiau lleiafrifol | |
| - Yr unigolion arferol | |
| - Iaith a llythrennedd | |
| - Gwerthoedd a chredoau | |
| - Ffurf a dull ymgysylltu | |
| - Rhaniadau cymunedol | |

(addaswyd o OPM 2006, t.15)

***Senario - y cyswllt cyntaf***

Gan gymryd bod person hŷn wedi dangos diddordeb mewn materion dinesig drwy:

- ddod i gyfarfod fforwm am y tro cyntaf
- ysgrifennu llythyr i bapur lleol
- cwyno i'r cyngor lleol
- ysgrifennu at eu cynghorwr lleol, AC neu AS
- ysgrifennu blog

- ymuno â phrotest
- llunio grŵp ymgyrchu
- enghreifftiau eraill, gan gynnwys y rheini o *Dabl 1*.

Nawr yr hyn sydd ei angen yw rhyw fath o weithredu sy'n rhoi'r cyfle iddynt gymryd y cam nesaf - neu, ym marn rhai, ddringo i ris nesaf ysgol Arnstein. Ar hyn o bryd, mae angen ymateb a luniwyd yn flaenorol i ddatganiadau fel:

“Gwnes i fwynhau dod i'r fforwm, ond nid yw'n hawdd i mi ddod.”

Yn amlwg, mae materion sensitif sylweddol o bosibl wrth ymateb i hynny, ond dyna sut mae sgyrsiau'n dechrau a dyna sut y caiff cydberthnasau eu meithrin. Mae'n sylw eithaf amlwg am sut y mae pobl yn ymddwyn fel pobl. Ond ar ryw gam yn y sgwrs, pan fydd y rhwystr i ymgysylliad pellach yn cael ei fynegi, mae'n rhaid bod ag ymateb wedi'i lunio'n dda ar ffurf gwahoddiad neu gynnig. Dyna pryd y dechreua'r *atebion posibl* yn *Nhabl 4* weithio.

Yna mae'n rhaid i ni symud o *beth* yw'r ateb posibl i *bwy* sy'n rhan o'r ateb hwnnw.

## RHWYSTRAU I YMGYSYLLTIAD - SAFBWYNT SEFYDLIADAU'R SECTOR CYHOEDDUS

“Asking people set questions in focus groups or polling is a poor substitute for real democratic processes.” (Ymchwiliad POWER 2006, t.9)

Hyd yn hyn, rydym wedi canolbwyntio ar y rhwystrau i ddinasyddiaeth weithgar o safbwynt bobl hŷn. Cofnodwyd y diffyg brwdfrydedd cyhoeddus cyffredinol am lefelau dyfnad cymgysylltiad dinesig. Ai diffyg brwdfrydedd cyffredinol yw hyn am ddinasyddiaeth a adlewyrchir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus? Efallai bod gofynion statudol i sefydliadau'r sector cyhoeddus gynnwys eu cyhoedd, ond mae'r graddau y maent yn cyflawni'r gofynion hyn yn debygol o amrywio.

Yn y fan hon, mae'n werthy nodi bod amheuaeth ynglŷn â bwriad y sector cyhoeddus ynghylch ymgysylltiad dinesig. Nodir trafodaeth fer o'r materion o dan ‘Ystyriaethau Pellach’ (t.30).

Mae adroddiad ‘*Meta-Evaluation of the Local Government Modernisation Agenda: Progress Report on Stakeholder Engagement with Local Government’* (Leach et al 2005) yn rhoi trosolwg cynhwysfawr a diweddar. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at faterion yr ochr gyflenwi (e.e. swyddogion llywodraeth leol) a'r ochr galw (e.e. dinasyddion) yn hytrach na rhwystrau i ymgysylltiad. Mae ystyriaethau'r ochr gyflenwi'n mynegu'r farn fod gan sefydliadau'r sector cyhoeddus gyfrifoldebau am yr isadeiledd democrataidd sydd y tu hwnt i allu unigolion neu grwpiau. Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- cydnabyddiaeth bod ymgysylltiad cyhoeddus sylweddol, ond mewn ffyrdd llai ffurfiol, e.e. mynd i wrthdystiad;
- er y cymerwyd rhai camau tuag at ddemocratiaeth cyfranogol ac ystyriol gan lywodraeth leol, bu pwyslaid ar ansawdd darparu'r gwasanaeth; "… service delivery/Best Value was the most popular policy focus for participatory issues. Less importance is attached to democratic objectives such as increasing citizen awareness and empowering local communities." (Leach et al 2005, t.40). Hynny yw, yn aml mae ymgysylltiad wedi bod o natur 'brynwriaethol' Wrth gwrs, mae ansawdd gwasanaethau'r sector cyhoeddus o bryder i bawb. Ond mae risg i'r mater hwn dynnu'r sylw yn llwyr oddi ar faterion eraill. Yna daw'r agenda llywodraeth leol 'Ymgysylltiad ond ar ein telerau ni' - rhwystr amlwg i ymgysylltiad dinasyddion dyfnach.
- Gormodedd; dyblygu; diffyg tystiolaeth o ganlyniadau ymgysylltiad; a methiant i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol – nodir rhain i gyd fel problemau, neu hyd yn oed, eu bod yn achosi rhwystrau pellach i ymgysylltiad.

Yn rhyfedd iawn, nid yw adroddiad Leach et al (2005) yn ystyried diffyg adnoddau llywodraeth leol fel rhywbeth sy'n cyfyngu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu. Defnyddir y thema hon mewn astudiaeth diweddar iawn yng Nghymru(Hall et al 2007, gweler nodyn 10). Mae'r canfyddiadau cychwynol yn nodi materion adnoddau mewn perthynas â:

- galwadau cystadleuol ar adnoddau, hynny yw, mae ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion yn flaenoriaeth isel;
- mae diffyg arbenigedd o fewn llywodraeth leol ar sut i ymgysylltu'n weithgar â'r trethdalwr;
- diffyg amser i ddatblygu rhwydwaith o gydberthnasau angenrheidiol ar gyfer mathau dyfnach o ymgysylltiad â dinasyddion.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw hefyd at ganfyddiadau llywodraeth leol o ddifaterwch cyhoeddus ar raddfa fawr ynghylch ymgysylltu â dinasyddion. Gellir dehongli hyn fel llywodraeth leol yn creu rhwystr i ymgysylltiad.

## STORÏAU AM LWYDDIANT YMGYSYLLTIAD DINESIG

Ym *Mlwch Tystiolaeth 1* (t.13) nodwyd y gwir o ran disgwyliadau ar gyfer y niferoedd o bobl sy'n ymgysylltu llawer â llywodraeth leol. Ond mae rhai arwyddion calonogol. Er enghraifft, mewn arolwg (MORI 2001), "…honodd 20% o ymatebwyr yr hoffent gael mwy o lais yn yr hyn y mae'r cyngor yn ei wneud, ac yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu, …" (Leach et al 2005, t.43).

I symud ymlaen o'r datganiad cyffredinol, mae'r adran hon yn gofyn dau gwestiwn:

Beth sy'n gweithio ym maes ymgysylltiad dinesig pobl hŷn?
Beth nad yw'n gweithio?

Mewn ymateb i'r cwestirynau hyn, ni ddangosodd chwiliad o'r llenyddiaeth lawer o dystiolaeth dda. Mae storïau diddorol am fentrau ymgysylltiad dinesig cyfarwydd, ond nid oes llawer o ran meintoli'r canlyniadau ac effeithiau prosiect ymgysylltiad dinesig - efallai nad yw hynny'n bosibl. Mae llenyddiaeth sy'n ymwneud yn benodol â phobl hŷn yn gyfyngedig iawn.

Rhoddodd y deunydd canlynol sylwebaethau byr am y dogfennau a ddarllenwyd.

**Adroddiadau**

*EngAGE – Involving Older People / Cynnwys Pobl Hŷn*
(Age Concern Cymru 2007)

Mae hwn yn adroddiad cynhwysfawr iawn sy'n manylu llawer ar weithgaredd o ymgysylltu â dinasyddion 50 oed a hŷn yng Nghymru dros y pedair blynedd diwethaf.

Cwmpesir holl agweddau ymgysylltiad, gan gynnwys;

- diffiniadau ymgysylltiad;
- materion am gydraddoldeb ac amrywiaeth;
- ymatebion trefniannol i'r her o ymgysylltiad;
- dimensiwn polisi ymgysylltiad;
- Pecyn Cymorth Cynnwys Pobl Hŷn;
- Ymgysylltiad trwy …

Mae'r eitem olaf hon - Ymgysylltu trwy … - yn nodi rhestr gynhwysfawr o ymagweddau gwahanol tuag at ymgysylltu a ffyrdd o ymgysylltu. Mae hyn yn gysyniadoli radical o'r maes ac mae'n haeddu cael ei hyrwyddo'n sylweddol.

*Llefaru dros ein Hoed / Speaking Up for our Age*
(Help the Aged 2003, 2007; Jones 2006)

Mae'r dair dogfen hyn yn cynnwys, heb os, y wybodaeth a'r canllawiau ymarferol mwyaf cynhwysfawr am Fforymau Pobl Hŷn a materion cysylltiedig. Yn arbennig, mae'r casgliad o ddogfennau'n cynnwys:

- amlinelliad o'r dull cyfranogol sy'n sail i'w gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn;
- ffactroau allweddol ym maes partneriaeth dinasyddiaeth rhwng pobl hŷn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector;
- rolau Fforymau Pobl Hŷn, Cydlynwyr Strategaeth ac Eiriolwyr Pobl Hŷn;
- pecyn cymorth ar gyfer sefydlu a chynnal fforymau sy'n cynnwys popeth sydd ei angen arnoch;
- cyfeiriadur fforymau.

Yn ogystal, mae adroddiadau'r gynhadledd flynyddol *Llefaru dros ein Hoed* ar gael.

*Older people 'getting things done': Involvement in policy and planning initiatives* (Reed et al 2006)

Dyma'r adroddiad Joseph Rowntree y soniwyd amdano eisoes. Mae'r unig sylwadau ychwanegol yn ymwneud â'r Rheithgor Dinasyddion DIY. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadl argyhoeddiadol dros fuddiannau datblygiad personol pobl hŷn drwy'u cynnwys mewn proses sylfaenol o ddemocratiaeth.

"It brought me out of my shell you know. I never thought I'd see the day I'd go to Cambridge University and sit there and others listen to my views. I didn't have the confidence because I had never been a speaker. [Now that has changed.] So I go out a lot." (Reed et al 2006, t.51)

Defnyddiwyd Rheithgorau Dinasyddion gan 6% yn unig o awdurdodau lleol (ffynhonnell: Leach et al 2005) ond mae'r dyfyniad hwn yn nodi eu potensial os yw a wnelo ymgysylltu gymaint ag annog dinasyddion gweithgar ag ydyw am ddatblygu'r broses o wneud penderfyniadau.

Efallai mai'r neges mwy cyffredinol y mae angen ei chymryd o'r astudiaeth yw y dylid ymgysylltu â phobl hŷn fel unigolion, nid fel grŵp neu label. Diwallu anghenion unigolion a rhoi cyfleoedd am ddatblygiad personol.

Mae'n ymwneud â'r cyffyrddiad personol - beth bynnag fo'r cyd-destun. Fel y dywed Yardley et al (2006, t.650) wrth gofnodi barn pobl hŷn mewn chwech o wledydd Ewropeaidd:
"A personal invitation from a health professional to participate is important …"

*Beyond the Ballot – 57 Democratic Innovations from Around the World* (Smith 2005)

Yn ôl yr adroddiad hwn, mae rheswm dros optimistiaeth yn cynyddu yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithgar yn y broses ddemocrataidd. Dyma rai enghreifftiau:

- "... as many as 8.4% of the adult population in Porto Alegre [Brazil] stated that they had participated in budget assemblies in the last five years." (Smith 2005, t.64) Mae'r ganran a ddyfynnwyd yn eithaf bach o ran y boblogaeth gyfan - ond mae bedair gwaith yn fwy na rhai o'r ffigurau a ddyfynnwyd uchod! Y math o gyfranogiad sy'n hanfodol - pobl yn cymryd rhan wirioneddol yn y broses o ddyrannu arian cyhoeddus. Mae'r adroddiad '*Breathing life into democracy – the power of participatory budgeting'* (2005) yn rhoi trosolwg penodol o'r arloesiad democrataidd hwn.
- Mae arloesiadau ymgynghori'n cynnwys 'fforymau sefydlog', fel ein Fforymau Pobl Hŷn ein hunain. Sonnir hefyd am Baneli Defnyddwyr a

‘Cynllunio Go Iawn’. Cydnabyddir y perygl y caiff ymgynghoriadau eu rheoli ganddynt er eu budd eu hunain.

- Caiff arloesiadau E-ddemocratiaeth eu hystyried. Mae e-ddeisebau fel "Scrap the planned vehicle tracking and road pricing policy" wedi bod yn (rhy?) boblogaidd.

Nid yw'n bosibl gwneud cyfiawnder â'r amrywiaeth o arloesiadau a ddisgrifir yn *‘Beyond the Ballot’* mewn adolygiad cyflym. Mae'r adroddiad yn haeddu cael ei ddarllen o leiaf.

*Creu'r Cysylltiadau: Cynnwys y Cyhoedd mewn Penderfyniadau - Llais y Dinesydd* (LlCC 2006)

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi hanes arbennig o dda o ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol. Ceir adolygiad byr, ond defnyddiol hefyd, o ddulliau o ymgysylltu â'r cyhoedd - er nad yw mor gynhwysfawr o bell ffordd â *Beyond the Ballot.* Pwysleisir pwysigrwydd gwahodd pobl i ymgynghoriadau (LlCC 2006, vi)

| |
|---|
| **Negeseuon allweddol - Ei amrywio!   Ei bersonoli!**<br><br>Mae arloesiadau ar ffurf cynnwys yn debygol o gynyddu nifer y bobl sy'n ymgysylltu â phrosesau democrataidd.<br><br>*Mae gweithgareddau sy'n ymgysylltu â phobl hŷn fel unigolion yn debygol o wneud iddynt ymgysylltu ymhellach mewn modd dinesig.* |

**Canllawiau a safonau arfer da - tuag at becyn cymorth**

Mae rhai adnoddau defnyddiol ar gael i'r Grŵp Llywio Cynllun Gwaith. Nid oes un ohonynt yn rhoi canllawiau penodol ar gyfer ymgysylltu â phobl hŷn yn ddinesig. Er hynny, gallant gael eu defnyddio mewn cydweithrediad â'r adroddiad hwn wrth fynd â'r *Prosiect Ymchwil Gweithredu Ymgysylltiad* i'w gam nesaf.

*Facilitating community involvement: practical guidance for practitioners and policy makers* (Larsen 2004)

Mae'r canllawiau yn hawdd cael gafael arnynt sy'n eu gwneud yn gyfeiriad defnyddiol fel rhestr wirio.
Yn unol â'r blwch neges allweddol uchod, mae Larsen (2004, t.8) yn awgrymu:

“● ensuring the use of both universal and targeted strategies …”

*National Standards for Community Engagement* a *National Standards for Community Engagement – Reference Manual* (Gweithrediaeth yr Alban, dim dyddiad)

Efallai y gellir ystyried ei fabwysiadu.

*Signposts A practical guide to public and patient involvement in Wales* a *Signposts Two Putting Public and Patient Involvement into Practice* (CCC / Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus 2001 /2003)

Mae'n werth ystyried y rhain - tra'n cofio'r gwahaniaeth rhwng y GIG a llywodraeth leol. Mae'r syniad o glaf arbenigol yn un diddorol. Beth am ddinasyddion arbenigol?

## YSTYRIAETHAU PELLACH

"The route to enhancing meaningful civic life is not badgering people to become engaged because politics is fun and easy; it is asking people to become engaged because politics is dreary and difficult" (Theiss-Morse a Hibbing 2005, t.245)

Dechreuodd yr adroddiad hwn drwy nodi'r gwir: nid ymgysylltir â llawer o bobl yn ddinesig. Mae'r dyfyniad uchod yn mynd â ni yn ôl i'r man cychwyn. Mae hefyd yn caniatau ystyriaeth bellach o'r *profiadau negyddol blaenorol* a drafodwyd eisoes fel rhwystr i ymgysylltiad dinesig pobl hŷn.

O bapur arloesol Arnstein yn 1969 i bapur Stephen Thomas yn 2007, mae traddodiad sy'n cwestiynu'n adeiladol yr hyn sy'n digwydd o dan bennawd 'ymgysylltiad dinesig'.

Mae'r adroddiad yn cynnwys pedwar papur sy'n rhoi deunydd meddwl ymatblyg. Mae Thomas (2007) yn gofyn: "Whose Process is it anyway?" Cyfeiriwyd yn fras at y mater hwn yng nghyfarfod prosiect cyntaf y grŵp Gorchwyl a Gorffen. A yw'r broses a ddechreuwyd gennym yn eiddo i bobl hŷn ... eto? A yw ymgysylltiad yn digwydd gyda phobl hŷn, iddynt neu ar eu rhan?

Mae Martinson a Meredith (2006) yn cwestiynu'r cyfeiriadau polisi mewn economïau datblygedig sy'n codi oherwydd y 'bom amser demograffig'. Mae'r awduron yn feirniadol o'r tueddiad sy'n lleihau'r agwedd ysbrydol ar heneddio gan ei ddisodli â gweithgaredd cynhyrchiol. Maent yn ysgrifennu:

"In Britain, as in other parts of Western Europe and the United States, … older citizens [are] valued for their ability to contribute to the market economy through paid or unpaid workforce participation. The emerging social policies promoting paid work and volunteer opportunities for older adults both create and reflect a new public discourse on what it means to be old." (Martinson & Meredith 2006, t.321)

Mae Thiess-Morse a Meredith (2005) yn herio rhai o'r rhesymau dros hyrwyddo ymgysylltiad dinesig. Yn benodol, maent yn nodi bod grwpiau sydd wedi ymgynull yn ddemocrataidd yn ôl pob sôn, yn aml yn canlyn hunan-ddiddordebau adrannol. Mae'r awduron yn dehongli'r canlyniad hwn fel un sy'n codi oherwydd pwyslais gormodol ar gynnyrch a chanlyniadau. Fel y

maent yn nodi yn y dyfyniad uchod, mae democratiaeth yn broses fler, ond dyna'r broses sy'n cyfrif mewn gwirionedd. Mae dinasyddion da yn parhau gyda democratiaeth, hyd yn oed pan fydd y penderfyniadau yn mynd yn eu herbyn.

Mae Ryfe (2005) yn adolygu 'democratiaeth ystyriol' gan barhau â'r thema uchod o ddemocratiaeth anghysurus. Mae'n cysylltu adroddiad academaidd â phum mecanwaith: rheolau, storïau, arweinyddiaeth, yr hyn sydd yn y fantol a phrentisiaeth.

## SYLWADAU I GLOI

Mae'r adolygiad ymchwil hwn yn seiliedig ar amrywiaeth eang o lenyddiaeth sy'n rhychwantu gwahanol disgyblaethau, gwledydd a mathau o wirfoddoli. Er gwaetha'r diffyg ymchwil penodedig i ymgysylltiad dinasyddion hŷn, mae hyder rhesymol yn nibyniadwyedd y canfyddiadau yn eu cymhwysiad o fewn y prosiect hwn. Mae ymatebion cychwynnol gan gyfranogwyr y prosiect wedi cadarnhau'r farn hon. Rhaid aros i weld a ellir defnyddio'r canlyniadau i gynllunio, gweithredu a gwerthuso Prosiectau Ymgysylltu â Dinasyddion 50+.

## NODIADAU

1. Mae angen egluro'r ymadrodd 'adnoddau pesonol'. Yn yr adolygiad o lenyddiaeth, mae ymadroddion megis cyfalaf dynol a chymdeithasol yn ymddangos yn rheolaidd. At y dibenion presennol, mae 'adnoddau pesonol' yn ymddangos yn ymadrodd mwy hygyrch. Hefyd, o dan y pennawd hwn mae 'hyder cymdeithasol a hunan-barch'. Mae'r ffactorau hyn yn deillio'n rhannol o ymdrech i weithredu'r syniad o bersonoliaeth pro-gymdeithasol. Mae'r estyniad hwn yn synnwyr cyffredin lleyg, yn hytrach na chymhwyso gwyddor seicolegol ffurfiol.
2. Defnyddiwyd papur 1969 Arnstein, 'A Ladder of Citizen Engagement', yn eang ac fe'i ddyfynnwyd yn aml. Hefyd, mae'i ddefnyddioldeb wedi'i gwestiynu yn yr ystyr ei fod yn awgrymu cynnydd normadol drwy gamau ymgysylltiad. Mae'r trosiad o ysgol ar fai yma fwy na thebyg. Mae'n well meddwl o ran lefelau ymgysylltiad - y safbwynt a arddelir yma.
3. Mae angen rhagor o amser ar gyfer chwiliadau llenyddiaeth neu ragor o ymchwil. Mae'r wybodaeth a roddir yn seiliedig ar arolygon poblogaeth gyfan. Byddai'n ddiddorol gwybod y ffigurau o ran bandiau oedran, e.e. 50-59, 60-69, ac ati.
4. Ar adegau roedd yr ymchwilydd hwn rhwng dau feddwl am y wybodaeth am nifer o faterion pwysig. A oedd yr cwestiynau heb eu hateb oherwydd cyfyngiadau amser ar yr chwiliad o'r llenyddiaeth? Neu, a oedd oherwydd nad oedd unrhyw un wedi ceisio ymateb i'r cwestiynau perthnasol? Mae'r ymchwilydd yn meddwl mai'r olaf sy'n wir.
5. Roedd angen rhywfaint o 'fireinio' i roi trefn cysyniadol ar y dystiolaeth. Mae Atodiad 3 yn dangos model Penner 2002, a allai roi rhywfaint o gymorth i egluro'r broses wirfoddoli.
6. Mae'r canfyddiad bod pobl sy'n debygol o fod yn 'seicolegol oeraidd' tuag at wirfoddoli efallai'n anodd ei ddarllen. Ond mae'n awgrymu, o leiaf yn yr

achos cyntaf, fod angen targedu adnoddau ar ffyrdd ystyrol ac effeithiol o oresgyn y rhwystrau economaidd, strwythurol, cymdeithasol a diwylliannol i ymgysylltu â phobl sy'n ffafrio ymgysylltuad dinesig. Yn syml, mae person sydd â phersonoliaeth pro-gymdeithasol yn enghraifft dda o berson sy'n debygol o gymryd rhan. Yn amlwg, ni ddylai unrhyw brosiect ymgysylltu geisio allgáu pobl sy'n arddangos ymddygiad anghymdeithasol.

7. Ble mae'r ymchwil sy'n dweud wrthym am batrwm gwirfoddoli ar gyfer y gwirfoddolwyr 'craidd'. A ydynt yn treulio'u holl amser gydag un sefydliad? Neu, a ydynt yn rhannu eu hamser?
8. ELSA: English Longitudinal Study of Ageing (ELSA). Y cyfeiriad yw Barnes et al (2006).
9. Yn ei hanfod, gwnaed ymdrech i rannu'r boblogaeth o bobl hŷn yn ôl nodweddion penodol. Mae Ofcom (2006) yn defnyddio'r ymagwedd hon tuag at ymgysylltu ac mae'n gadael argraff o lymder sy'n ddiffygiol mewn llawer o'r adroddiadau eraill a adolygwyd.
10. Mae Hall et al (2007) yn adroddiad manwl am gynnwys y cyhoedd mewn tair bwrdeistref sirol yng Nghymru. Cyrrhaeddodd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2007, ychydig yn rhy hwyr i'w ystyried yn llawn ar gyfer yr adolygiad ymchwil hwn.

## CYFEIRIADAU


Age Concern Cymru (2007) *EngAGE – Involving Older People / Cynnwys Pobl Hŷn*. Age Concern Cymru.

Arnstein, S (1969) A Ladder of Citizen Participation. *JAIP*, 35(4), Gorffennaf, 216-224.

Barnes, M, Blom, A, Cox, K, Lessof, C, Walker, A (2006) *New Horizons: The Social Exclusion of Older People: Secondary Analysis of the English Longitudinal Study of Ageing*. Canolfan Genedlaethol Ymchwil Cymdeithasol a Phrifysgol Sheffield

Bekkers, R (2005) Participation in Voluntary Associations: Relations with Resources, Personality, and Political Values. *Political Psychology*, 26(3), 439-454.

Blakey, H, Richardson, P, a Yorke, S (2006) Usual Suspects or Community Leaders – What's the difference? Pilot Online Discussion Forum 22ain – 24ain Tachwedd 2004. Yn *Engagement, Proceedings of the 12th MOPAN International Conference*, gol. N. Gould, Caerwysg, DU: Small Run Press; t. 249-259.

Economic and Social Research Council (2007) *Localism and local governance*. Swindon, DU: ESRC.

Finkelstein, M, (2006) Dispositional Predictors of Organization Citizen Behavior: Motives, Motive Fulfillment, and Role Identity. *Social Behavior and Personality*, 34(6), 603-616.

Finkelstein, M, Penner, L, Brannick, M (2005) Motive, Role Identity, and Prosocial Personality as Predictors of Volunteer Activity. *Social Behavior and Personality*, 33(4), 403-418.

Hall, D, James, V, Llewellyn, M, Lock, K, Mackie, P, a Rees, M (2007) *Beyond Barriers: Identifying conditions for embedding effective public involvement*. Abertawe: Gwasanaethau Ymchwil Barn (ORS).

Help the Aged (2003) *Setting the Direction*. Caerdydd, DU: Help the Aged. http://www.helptheaged.org.uk/NR/rdonlyres/E6F3E859-9BB6-463B-8477-D7769EB5397B/0/setting_the_direction.pdf

Help the Aged (2007) *Directory of Older People's Forums in Wales 2007*. Caerdydd, DU: Help the Aged. http://www.helptheaged.org.uk/NR/rdonlyres/CA08803A-E3FC-4A20-8FB4-ABFC2FD70D75/0/wd_directoryofolderpplsforums_020407.pdf

Jones, R (2006) *Forum Resource Manual*. Caerdydd, DU: Help the Aged. http://www.helptheaged.org.uk/NR/rdonlyres/5BC44B4D-910A-45FD-BC89-8BF4440986E8/0/wd_forumresourcemanual_040407.pdf

Kloseck, M, Crilly, R a Mannell, R (2006) Involving the Community Elderly in the Planning and Provision of Health Services: Predictors of Volunteerism and Leadership. *Canadian Journal of Aging*, 25(1), 77-91.

Larsen, C (2004) *Facilitating community involvement: practical guidance for practitioners and policy makers.* Llundain, DU. Y Swyddfa Gartref.

Leach, S, Lowndes, V, Cowell, R a Downe, J (2005) *Meta-Evaluation of the Local Government Modernisation Agenda: Progress Report on Stakeholder Engagement with Local Government*. Llundain, DU: Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Li, Y a Ferraro, K (2005) Volunteering and Depression in Later Life: Social Benefit or Selection Process. *Journal of Health and Social Behavior*, 46, Mawrth, 68-84.

Li, Y a Ferraro, K (2006) Volunteering in Later Life: Is Health a Benefit, Barrier or Both? *Social Forces*, 85(1), Medi, 497-519.

Malin, E (2005) "*……..because they enjoy it!" A study of the factors that influence participation in volunteering in later life, with a focus on the Vale of Glamorgan*. Canolfan Wirfoddoli Bro Morgannwg

Martinson, M a Minkler, M (2006) Civic Engagement and Older Adults: A Critical Perspective. The Gerontologist , 46(3), Mehefin, 318-324.

*Murphy, R, Wedlock, E and King, J (2005) Early findings from the 2005 Home Office Citizenship Survey (2[il] Argraffiad)*. Llundain, DU: Y Swyddfa Gartref.

CCC / Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2001) *Signposts A practical guide to public and patient involvement in Wales*. Caerdydd / Llundain: CCC / OPM.

CCC / Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2003) *Signposts CCC / Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus*. Caerdydd / Llundain: CCC / OPM.

Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2006) *Customer and community engagement briefing.* Llundain: Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus Cyf.

Ofcom (2006) *Consumer Engagement with Digital Communications Services*.

Penner, L (2002) Dispositional and Organizational Influences on Sustained Volunteerism: An Interactionist Perspective. *Journal of Social Issues*, 58(3), 447-467.

Reed, J, Cook, G, Bolter, V, a Douglas, B (2006) *Older people 'getting things done' – Involvement in policy and planning initiatives*. Efrog, DU: Sefydliad Joseph Rowntree.

Ryfe, D (2005) Does Deliberative Democracy Work? *Annual Review of Political Science*, 8, 49-71.

Gweithrediaeth yr Alban (d/d) *National Standards for Community Engagement*.

Gweithrediaeth yr Alban (d/d) *National Standards for Community Engagement – Reference Manual.*

Theiss-Morse, E a Hibbing, J (2005) Citizenship and Civic Engagement. *Annual Review of Political Science*, 8, 227-49.

Smith, G (2005) *Beyond the Ballot, 57 Democratic Innovations from Around the World*, Adroddiad ar gyfer Archwiliad Po**WE**R. Caerwysg, DU: Short RunPress.

Tang, F (2006) What Resources Are Needed for Volunteerism? A Life Course Perspective. *The Journal of Applied Gerontology*, 25(5), Tachwedd, 375-390.

Ymchwiliad POWER (2006) *Power to the People*. Efrog, DU: York Publishing Distribution.

Thomas, S (2007) Community Participation in Governance: Whose Process is it anyway? – A literature Review. Prifysgol Morgannwg.

Llywodraeth Cynulliad Cymru(2006) *Cyflawni'r Cysylltiadau: Cynnwys y Cyhoedd mewn Penderfyniadau - Llais y Dinesydd.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Wilcox / blog. *Designing for Civil Society*.
http://partnerships.typepad.com/civic/engagement/index.html
Defnyddiwyd 01/02/07.

Yardley, L, Bishop, F, Beyer, N, Hauer, K, Kempen, G, Piot-Ziegler, C, Todd, C, Cuttelrod, T, Horne, M, Lanta, K, Holt, A (2006) Older People's Views of Falls-Prevention Interventions in Six European Countries. *The Gerontologist*, 46(5), Hydref, 650-660.

Yardley, L, Beyer, N, Hauer, K, McKee, K, Ballinger, C and Todd, C (d/d) *Recommendations for Promoting the Engagement of Older People in Preventive Health Care.* Prevention of Falls Network Europe.

## LLYFRYDDIAETH

Mae'r canlynol yn rhestr o gyhoeddiadau y cyfeiriwyd atynt, ond na chawsant eu defnyddio'n benodol wrth ddrafftio'r adolygiad hwn.

Armony, A (2004) *The Dubious Link: Civic Engagement and Democratization*. Stanford: Stanford University Press.

Beecham, J, Morgan, G a Webb, A (2006) *Beyond Boundaries: Citizen-Centred Local Services for Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Burton, P, Croft, J, Hastings, A, Slater, T, Goodlad, R, Abbott, J a Macdonald, G (2004) *What works in community involvement in area-based initiatives? A systematic review of the literature.* Llundain, DU: Y Swyddfa Gartref.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2006) *"How To Consult …" Practical guidelines for undertaking consultation and research activities*. Caerffili: Yr Uned Bolisi.

Adran Graffu Cyngor Bwrdeistref Sirol *Caerffili*. Caerffili: Yr Uned Bolisi.

Menter Community Pride / Rhaglen Dlodi Oxfam UK (2005) *Breathing life into democracy: the power of participatory budgeting*.

Cooper, T, Bryer, T a Meek, J (2006) Citizen-Centred Collaborative Public Management. *Public Administration Review*. 66, Rhagfyr, Rhifyn Arbennig, 76-88.

Dunning, A (2005) *The Participation and Engagement of Older People in Policy and Decision Making in Denbighshire*. Sefydliad Beth Johnson.

Kitchen, S, Michaelson, J, Wood, N, a John, P (2006) *2005 Citizenship Survey*. Llundain: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Kloep, M. & Hendry, L. B. (2007) Being 60 in Wales. Unpublished report, University of Glamorgan.

Mencken, F, Bader, C a Polson, E (2006) Integrating Civil Society and Economic Growth in Appalachia. , G. *Growth and Change*, 37(1), Mawrth, 107-127.

Smithsonian Institution (2001) *Barriers to Engagement at Smithsonian International Art Museums*. Swyddfa Bolis a Dadansoddi.

The National Centre for Volunteering (2001) *From Barriers to Bridges: A guide to volunteer-involving organisations.*

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2006) *barriers to engagement*. Llundain, DU: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr.

Vegeris, S, Barnes, H, Campbell-Barr, V, Mackinnon, K, Taylor, R (PSI) a Martin, D a Harris, J (2007) *Older Citizen Engagement in UK Local Government – A review of practices* (In Press). Better Government for Older People & Policy Studies Institute.

Llywodraeth Cynulliad Cymru(2006) *Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# ADRAN 3

## Gwybodaeth Gyfeirio Ychwanegol

Cyn belled â phosibl o fewn y cyd-destun ymchwil, cynlluniwyd yr adroddiad hwn gan roi ystyriaeth i hygyrchedd a darllenadwyedd. Mae'r adran olaf hon yn cynnwys yr hyn y gellid ei alw'n fanylion ymchwil, neu wybodaeth ddefnyddiol iawn na ellir ei chynnwys yng nghorff y testun - oherwydd pryderon am dorri llif y testun.

### RHESTR TERMAU - RHAI 'DIFFINIADAU' O DERMAU PWYSIG.

(gyda chydnabyddiaethau i Vegeris et al (2007) am ffynonellau a hefyd i Wikipedia a togetherwecan http://togetherwecan.direct.gov.uk/)

**Dinasyddiaeth Weithgar (gweler hefyd Dinesydd Ymgysylltiedig)**

dinasyddion yn manteisio ar gyfleoeodd i gymryd rhan weithgar yn y broses o ddiffinio a mynd i'r afael â phroblemau eu cymunedau a gwella eu hansawdd bywyd. (togetherwecan)

**Ymgysylltiad dinesig**

Gall ymgysylltiad dinesig gymryd nifer o ffurfiau - o wirfoddoli unigol i gyfraniad sefydliadol i gyfranogiad etholiadol. Gall gynnwys ymdrechion i fynd i'r afael â mater yn uniongyrchol, gweithio gydag eraill mewn cymuned neu rhyngweithio â sefydliadau democratiaeth gynrychioliadol. (Wikipedia)

**Adnewyddu Sifil**

Mae adnewyddu cymdeithas sifil drwy ddatblygu cymunedau cryf, gweithgar a grymus, lle y gall pobl wneud pethau drostynt hwy eu hunain, yn diffinio'r problemau a wynebir ganddynt, ac yn mynd i'r afael â hwy mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus. Mae adnewyddu sifil yn cynnwys tair elfen hanfodol: dinasyddiaeth weithgar, cryfhau cymunedau a phartneriaeth wrth ddiwallu anghenion cyhoeddus. Ei broses ymarferol yw ymgysylltiad cymunedol. (togetherwecan)

**Democratiaeth Ystyriol**

Mae democratiaeth ystyriol, a elwir hefyd yn ddemocratiaeth drafodol weithiau, yn derm a ddefnyddir gan rai damcaniaethwyr gwleidyddol i gyfeirio at unrhyw system o wneud penderfyniadau gwleidyddol yn seiliedig ar rhyw fath o gyfaddawd o ran gwneud penderfyniadau consensws a democratiaeth gynrychioliadol. Yn wahanol i'r ddamcaniaeth draddodiadol o ddemocratiaeth sy'n seiliedig ar economeg, sy'n pwysleisio pleidleisio fel y sefydliad canolog mewn democratiaeth, mae damcaniaethwyr democratiaeth ystyriol yn dadlau mai dim ond drwy ystyried dinasyddion yn gyhoeddus y gall deddfu gwirioneddol ddilys godi. (Wikipedia)

**Ymgysylltiad**

- ***mae gan ymgysylltiad*** fwy neu lai yr un ystyr â ***chynnwys*** neu ***gyfranogiad***;
- mae gan bobl ***lefelau*** o ymgysylltiad / cynnwys / cyfranogiad, sy'n amrywio, dyweder, o ddarllen cylchlythyr i olygu cylchlythyr fforwm pobl hŷn;
- gall sefydliadau sector cyhoeddus ddarparu gwahanol ***fathau*** o ymgysylltiad, er enghraifft, drwy sefydlu ymgynghoriadau ystyrlon neu ariannu rheithgor o ddinasyddion;
- mae angen lefel fwy helaeth ymgysylltiad ar gyfer rhai mathau o ymgysylltiad, er enghraifft, cadeirio fforwm pobl hŷn;
- 'mae dau ben yn well nag un' – mae ymgysylltiad yn ymwneud â chydberthnasau.

**Dinesydd Ymgysylltiedig**

Rhywun sy'n:

- cydnabod cyfrifoldebau a hawliau o ddydd i ddydd, er enghraifft, drwy ddangos parch tuag at y gyfraith a chydweithio â system drethiant deg;
- gweithredu i gefnogi a datblygu bywyd dinesig, er enghraifft, drwy bleidleisio a mynychu cyfarfodydd a gynullir gan lywodraeth leol;
- gweithgar ym mywyd y gymuned, er enghraifft, drwy roi a derbyn cymorth gan gymdogion neu gefnogi timau chwaraeon lleol;
- gweitherdu i hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng bywyd dinesig a bywyd sifil, er enghraifft, drwy gyfleu'r neges fod cyfraith a threfn yn haws mewn diwylliant o oddefgarwch a chyd-barch ond heb dderbyn bod unrhyw beth yn dderbyniol;
- barod i wrando a dysgu bob amser – yn arbennig 'gwrando ar safbwynt gwahanol' a 'dysgu cytuno i anghytuno';
- gweithgar, yn gyffredinol, wrth gefnogi'r traddodiad democrataidd a phopeth sy'n gysylltiedig â hynny.

**Gwirfoddolwr/wraig/wraig**

Person sy'n treulio amser, heb dâl yn gwneud rhywbeth sydd â'r nod o fod o fudd i'r amgylchedd neu i bobl, boed yn unigolion neu'n grwpiau ac eithrio perthnasau agos, neu yn ogystal â hwy. (togetherwecan)

**MATHAU O YMGYSYLLTIAD**

Lluniwyd y rhestr gan Jackie Dix:

– ***Cyngor dinasyddion*** - defnyddiwyd hyn gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) i geisio barn sampl gynrychioliadol o bobl lleyg a chafodd adnoddau digonol o ran amser ac arian. Mae'r cyngor wedi bod yn cyfarfod ers dros dwy flynedd.

- ***Rheithgorau dinasyddion*** – dod â grŵp bach o ddinasyddion ynghyd i drafod mater penodol.
- ***Archfarchnadoedd*** – i gyrraedd trawsdoriad da o'r cyhoedd gyda holi yn y fan a'r lle ac sydd â'r fantais o gyrraedd pobl nad ymgysylltir â hwy fel arfer.
- ***Recriwtio ar y stryd*** - dull a ddefnyddir i recriwtio fforymau dinasyddion ar gyfer ymchwil Llywodraeth y Cynulliad i ymchwilio i'r ffordd y mae pobl am ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus. Unwaith eto, mae ganddo'r fantais o gyrraedd pobl nad ymgysylltir â hwy fel arfer.
- ***Grwpiau ffocws*** – gellir eu targedu i geisio barn pobl nad ymgysylltir â hwy fel arfer, megis grwpiau rhieni a phlant bach, grwpaiu anabledd a chlybiau ieuenctid neu gartrefi gofal.
- ***Gweledigaeth gymunedol*** – mae amrywiaeth eang o ddulliau gweledigaeth/cynllunio cymunedol sydd â'r nod o greu syniadau o bob rhan o'r gymuned i arwain at ddatblygu gweledigaeth a chynllun gweithredu. Mae'n debyg i ddull adfywio cynllunio go iawn.
- ***Rehearsal for Reality*** – cwmni theatr yng Nghymru sy'n llwyfannu theatr dychmygus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o sefyllfa cymdeithasol dinasyddion a chyfleoedd am newid.
- ***Dogfennau ymgynghorol*** – gellir eu hategu gan ddigwyddiadau i drafod yr ymgynghoriad ymhellach.
- ***Arolygon adborth defnyddwyr*** – er mwyn sicrhau adborth rheolaidd am wasanaeth. O fynd â hyn ymhellach, gallai gynnwys ymgynghori'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth, gan ystyried pobl yn arbenigwyr yn eu meysydd eu hunain a hyd yn oed ymchwil o dan arweiniad defnyddwyr.
- ***E-ymgynghoriad*** – gyda holiaduron a fforymau trafod ar-lein.

Yma ceir manylion pellach am ffurfiau o ymgysylltu a godwyd yn uniongyrchol o Smith (2005). Cynhwysir y dewisiadau hyn i hyrwyddo diddordeb yn Smith (2005) - mae'r adroddiad cyfan yn haeddu cael ei ddarllen.

**Cynllunio Go Iawn**

Mae Cynllunio Go Iawn yn dechneg a ddatblygwyd gan Sefydliad Mentrau Cymdogaeth (ac mae'n nod masnach cofrestredig ohono) ac yn aml fe'i ddefnyddir i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth adfywio cymdogaeth. Mae'r ymagwedd hon tuag at ymgynghori yn gwneud defnydd mwy creadigol o gyfarfodydd cyhoeddus ac mae'n cynnwys creu model 3D o'r gymuned, fel arfer wedi ei greu gan grwpiau cymunedol neu blant ysgol lleol. Yna cynhelir cyfres o ddigwyddiadau lle y mae'r cyfranogwyr yn gosod cardiau dewis (neu'n llenwi cardiau gwag) ar y model i gynrychioli'r newidiadau yr hoffent eu gweld. Yn aml, eir â'r model i grwpiau cymunedol nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn ymarferion yngynghori, gan alluogi cyfranogiad ar adeg ac mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r cyfranogwyr. Mae'r defnydd o gardiau hefyd yn golygu y gall dinasyddion, na fyddai'n ddigon hyderus efallai i leisio'u barn mewn cyfarfodydd agored, gynnig awgrymiadau. Ar ddiwedd y cyfarfodydd, rhoddir blaenoriaeth i'r awgrymiadau ac efallai y caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu. Mae Cynllunio Go Iawn yn cynnig ymagwedd weledol iawn tuag at

ymgynghori. Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) newydd yn cael ei archwilio - er enghraifft, yr arbrawf rhithwir a wnaed yn Slaithwaite, Gorllewin Swydd Efrog.

**Theatr Gyfranogol**

Mae theatr cyfranogol yn seiliedig ar 'theatr y gorthrymedig' a ddatblygwyd gan Augusto Boad o Brasil, sy'n credu y gall theatr dychmygus hyrwyddo ymwybyddiaeth o sefyllfa cymdeithasol dinasyddion a chyfleoedd am newid. Mae'r perfformwyr yn perfformio drama fer sy'n dangos prif gymeriad sy'n methu â chyflawni nod. Ailadroddir y ddrama a gwahoddir aelodau o'r gynulleidfa i gynnig awgrymiadau am sut y gallai'r prif gymeriad fod wedi gweithredu'n wahanol ac i ddod i'r llwyfan yn lle'r actorion i weithredu ar eu syniadau. Gall Theatr Gyfranogol weithio'n arbennig o dda fel ffordd o gysylltu unigolion a grwpiau sydd wedi ymddieithrio o ymagweddau mwy ffurfiol a thraddodiadol tuag at gyfranogiad.

[Yng Nghymru, gelwir Theatr Gyfranogol yn Theatr Fforwm Cymru]

**Cyllidebu Cyfranogol**

Sefydlwyd Cyllidebu Cyfranogol gyntaf ym Mhorto Alegre ym Mrasil yn 1989. O'r holl fentrau cyfranogol a ddefnyddir mewn gwledydd datblygol, Cylliebu Cyfranogol sydd wedi dal dychymgy ymarferwyr ac academwyr. Yn debyg i enghraifft Kerala, mae'n llwyddo i gyfuno ymgysylltiad poblogaidd ar lefel leol â datblygu a monitro cyllideb dinas-gyfan. Mae'n cyflawni hyn drwy gymysgedd o gynulliadau agored â chyrff cynrychioliadol.

Mae Cyllidebu Cyfranogol yn dechrau gyda chyfres o gynulliadau cymdogaethol a rhanbarthol poblogaidd sy'n creu blaenoriaethau buddsoddi ac yn dewis dinasyddion i wasanaethu ar gyrff gwneud penderfyniadau sy'n cyflwyno cyllideb dinas-gyfan i gorff deddfu'r ddinas. Mae lefelau cyfranogiad yn drawiadol - dros gyfnod o bum mlynedd ar ddiwedd y 1990au, nododd cymaint ag 8.4% o oedolion iddynt gymryd rhan yn y broses yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Mae CC wedi lledaenu i leoliadau eraill yn America Ladin ac mae'r diddordeb yn y defnydd hwn yn cynyddu yn y DU (er enghraifft yn Salford). Cynigir dadansoddiad mwy clir o'r broses yn Astudiaeth Achos 5.3.

**Pôl Ystyriol Ar-lein**

Mae James S Fishkin, dechreuwr y pôl piniwn ystyriol (4.3) hefyd yn hyrwyddo'r syniad o bôl ystyriol ar-lein (ODP). Gellir manteisio ar swyddogaeth amser real, rhyngweithiol y rhyngrwyd fel y gall dinasyddion sydd ar wasgar yn ddaearyddol drafod gyda'i gilydd yn yr un gofod rhithwir. Yn ôl Ackerman a Fishkin, mae'r rhyngrwyd yn dileu'r cyfyngiad o fod yn bobl gyda'i gilydd yn yr un lleoliad ffisegol: 'these restrictions disappear if the face-to-face discussion can be mediated through technology'.

Yn yr un modd â'r ymagwedd draddodiadol tuag at bôlau piniwn ystyriol, mae ODP yn dod â sampl ar hap o ddinasyddion ynghyd (hyd at 500) i drafod mater polilsi penodol - roedd y pôl ODP cyntaf ym mis Ionawr 2003 ar faterion tramor, y mwyaf diweddar yn ystod y cyfnod o baratoi ar gyfer etholiadau'r llywyddiaeth yn 2004 fel rhan o Deliveration Day PBS. Rhoddir cyfranogwyr ar hap mewn grwpiau bach sy'n trafod am tua 2 awr yr wythnos dros gyfnod o bedair wythnos. Ar ddiwedd y cyfnod, arolygir barn (ôl-ystyriol) y dinasyddion. O'i gymharu â fforymau trafod traddodiadol y rhyngrwyd, sy'n dueddol o ddenu dinasyddion o'r un farn, mae'r broses ddethol ar gyfer OPD yn sicrhau bod trafodaethau'n adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau.

Er mwyn goresgyn y 'rhaniad digidol', rhoddwyd Gwe-Deledu neu gyfrifiaduron i ddinasyddion heb fynediad i'r rhyngrwyd fel cymhelliant i gymryd rhan; rhoddwyd cydnabyddiaeth i ddinasyddion eraill. Mewn o leaif un ODP roedd gan bob cyfranogwr ficroffôn, gan leihau'r anfantais i'r rhieni a oedd â lefel llythrennedd is neu a oedd yn llai cyfforddus â thestun.

Cynhaliwyd pôl piniwn ystyriol traddodiadol ochr yn ochr â'r ODP ar faterion tramor yn 2003. Er bod newidiadau barn tebyg, 'roedd y newidiadau o'r drafodaeth ar-lein yn llai amlwg nag yn y fersiwn wyneb yn wyneb'. Mae Ackerman a Fishkin yn dadlau bod 'y canlyniadau cyflin hyn yn awgrymu y gallai trafodaethau ar-lein, pe baent yn para am fwy o amser, ryw ddiwrnod gynrhyrchu newidiadau hyd yn oed yn fwy na'r rhai sy'n deillioi o'r broses wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl dadlau y gallai ymgysylltiad wyneb yn wyneb rhwng dinasyddion gael mwy o botensial trawsnewidiol na thrafodaethau drwy gyfrwng TGCh. Ar hyn o bryd mae diffyg tystiolaeth y naill ffordd neu'r llall. Dim ond drwy gynnal ODP dros gyfnod hwy y cawn yr ateb.

## DEUNYDD DARLLEN AWGRYMEDIG AR GYFER Y TIMAU PROSIECT A PHARTÏON ERAILL Â DIDDORDEB

Prif ddiben yr adroddiad hwn yw darparu adnodd gweithredu, drwy roi gwybodaeth ddibynadwy am ymgysylltu â phobl hŷn yn ddinesig. Tasg yr awdur oedd ymchwilio, dethol a distyllu. Hynny yw, aethpwyd yn fanwl drwy'r papurau a dogfennau ac ailysgrifennwyd y darnau perthnasol. Mae rhywfaint o'r llenyddiaeth hon yn haeddu gwell triniaeth.

Mae'r rhestr canlynol yn deillio o'r *cyfeiriadau* a'r *llyfryddiaeth* (gweler isod) ac mae'n cynnwys y dogfennau hynny yr hoffai cydweithwyr fwrw golwg drostynt, o leiaf.

Age Concern Cymru (2007) *EngAGE – Involving Older People / Cynnwys Pobl Hŷn*. Age Concern Cymru.

Arnstein, S (1969) A Ladder of Citizen Participation. JAIP , 35(4), Gorffennaf, 216-224.

Leach, S, Lowndes, V, Cowell, R a Downe, J (2005) *Meta-Evaluation of the Local Government Modernisation Agenda: Progress Report on Stakeholder Engagement with Local Government*. Llundain, DU: Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Ar d.58, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr adran:

- Mae dinasyddion yn fwy tebygol o gymryd rhan :

  (i) os yw'r mater yn un maent â diddordeb ynddo, neu'n un sy'n agos at eu profiadau personol eu hunain.

  (ii) os gofynnir iddynt am eu cyfraniadau a gwneir iddynt deimlo y caiff eu cyfranaidau eu croesawu.

  (iii) os oes gan y corff sy'n gofyn am eu barn y pŵer i wneud rhywbeth ynglŷn â'r mater.

  (iv) os rhoddir yr ystyriaeth briodol i'w barn a gwelir y cânt eu hadlewyrchu yn y penderfyniad a wneir neu'r camau gweithredu a gytunir am y mater.

  (v) os yw'r ffurf ar ymgysylltu yn addas at y diben ac os nad yw'n gofyn mwy na'r hyn sy'n angenrheidiol gan y dinesydd. Rhaid bod cymesuredd rhwng yr hyn y gofynnir i'r dinasyddion ei gyfrannu a'r buddiannau cymdeithas sy'n deillio ohono.

  (vi) Maent yn cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

Mae'n ymddangos yn werth ei nodi a'i ddefnyddio.

Martinson, M a Minkler, M (2006) Civic Engagement and Older Adults: A Critical Perspective. The Gerontologist , 46(3), Mehefin, 318-324.

*CCC / Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus (2003) Signposts CCC / Swyddfa Rheolaeth Gyhoeddus*. Caerdydd / Llundain: CCC / OPM.

Reed, J, Cook, G, Bolter, V, a Douglas, B (2006) *Older people 'getting things done' – Involvement in policy and planning initiatives*. Efrog, DU: Sefydliad Joseph Rowntree.

Gweithrediaeth yr Alban (d/d) *National Standards for Community Engagement*.

Theiss-Morse, E a Hibbing, J (2005) Citizenship and Civic Engagement. *Annual Review of Political Science*, 8, 227-49.

Smith, G (2005) *Beyond the Ballot, 57 Democratic Innovations from Around the World*, Adroddiad ar gyfer Archwiliad Po**WE**R. Caerwysg, DU: Short RunPress.

Thomas, S (2007) Community Participation in Governance: Whose Process is it anyway? – A literature Review. Prifysgol Morgannwg.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Cyflawni'r Cysylltiadau: Cynnwys y Cyhoedd mewn Penderfyniadau - Llais y Dinesydd.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# ATODIAD 1

**Mae hyn, oherwydd natur y prosiect, yn friff sy'n esblygu**

**PROSIECT YMCHWIL YMGYSYLLTIAD (Trydydd Drafft)**

Dyddiad Cwblhau'r Prosiect erbyn 31$^{ain}$ Mawrth 2008

**At ddibenion y prosiect ymchwil gweithredu hwn, bydd y canlynol yn gymwys;**

- Mae Ymgysylltiad Effeithiol yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gan roi set hyblyg o dechnegau y gellir eu haddasu i amgylchiadau lleol, ond sy'n rhannu egwyddor gyffredin bod: y pŵer gyda'r rhai sy'n cymryd rhan, gan eu galluogi i ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau.
- Mae llawer o lefelau ar yr ysgol cyfranogi ac efallai y bydd gwahanol bobl am gymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd, felly mae angen darparu amrywiaeth o opsiynau.
- Mae adborth rhagweithiol i bawb sy'n cymryd rhan yn rhan hanfodol o ymgysylltiad gweithgar.

**Cyflwyniad**

Mae'r prosiect hwn yn deillio o'r ymwybyddiaeth gynyddol bod llawer o bobl 50 a hŷn sydd â barn gref am sut yr hoffent i wasanaethau gael eu cyflwyno, yn dewis peidio â chymryd rhan ac yn llai tebygol o ymgysylltu â materion neu lywodraeth lleol, er bod gennym grwpiau craidd ffyddlon o bobl hŷn sy'n cymryd rhan yn rheolaidd.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi bod llawer o weithwyr proffesiynol yn deall bod ymgynghori'n "angenrheidiol", ond yn aml mae diffyg dealltwriaeth o'r gwir werth y gall ei ychwanegu, yn arbennig pan fo'r ymgysylltu â dinasyddion yn digwydd ar ddechrau'r broses. Yn amlach na pheidio, cwblheir "ymgynghoriad" ar ddiwedd y broses oherwydd "gwyddant y dylent" ar adeg, pan fo'n rhy hwyr i wneud newidiadau.

Bu llawer o ymchwil yn y maes hwn, ond prin yw'r gwaith a wnaed i ddod â'r dystiolaeth a'r dulliau ynghyd i roi atebion ymarferol a hygyrch sy'n creu'r newid diwylliannol angenrheidiol i helpu i sicrhau bod y rheini sy'n 50 oed â hŷn yn cael cyfleoedd hawdd a hygyrch i ddylanwadu ar ddarparu gwasanaethau a llywodraethu lleol.

Credwn y byddai'r darn hwn o ymchwil gweithredu a'i ganlyniadau yn gam hanfodol tuag at gynnwys y diwylliant honno sy'n credu bod ymgysylltu â'r rheini sy'n 50 oed a hŷn yn werthfawr i bawb dan sylw.

**Nod y Prosiect**

Rydym am sicrhau bod pobl sy'n 50 oed a hŷn wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ynghylch comisiynu, cynllunio a darparu gwasanaethau i bobl hŷn a threfniadau llywodraethu lleol eraill:

- Nodi'r rhwystrau i ymgysylltu'n effeithiol
- Treialu atebion arloesol ar gyfer ymgysylltiad
- Darparu adroddiadau hygyrch i helpu gweithwyr proffesiynol a phobl hŷn, gan eu helpu i ymgysylltu.
- Darparu "pecynau cymorth" hygyrch ac atebion arloesol i weithwyr proffesiynol, yn ogystal â'r rheini sy'n 50 oed a hŷn.
- Bydd y prosiect yn ystyried y materion sy'n ymwneud â llythrennedd gwael a namau ar y synhwyrau wrth ddarparu "pecynnau cymorth" i Bobl Hŷn.

**Grwpiau Targed**

- Pobl sy'n 50 oed a hŷn, ac nad ymgysylltir â hwy ar hyn o bryd, sydd â barn gref am lywodraethu lleol a darparu gwasanaethau i'r rheini sy'n 50 oed a hŷn, a fyddai, gyda'r anogaeth, y gefnogaeth a'r cyfleoedd cywir, yn cymryd rhan pe câi'r rhwystrau presennol eu dileu.
- Gweithwyr proffesiynol sy'n cynllunio, yn comisiynu ac yn darparu gwasanaethau i bobl sy'n 50 oed a hŷn, ar lefel strategol a lefel ymarferol. Nid yw'r gweithwyr proffesiynol hyn ychwaith yn gwerthfawrogi'r gwerth ychwanegol i gynllunio a darparu gwasanaethau ar hyn o bryd y gellir ei ddarparu drwy ymgysylltiad effeithiol, neu hoffent wneud, ond nid oes ganddynt y dulliau i hwyluso ymgysylltu â phobl sy'n 50 oed a hŷn yn effeithiol.

**Rhanddeiliaid Allweddol**

Cefnogir y prosiect gan y rhanddeilaid allweddol canlynol sy'n rhoi adnoddau neu gymorth ariannol:
Cyfadran Pobl Hŷn Cynulliad Cymru
Partneriaeth Gweithred Bositif 50+ Caerffili
Adran Graffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Llywodraeth Well ar gyfer Pobl Hŷn
OPAG – Grŵp Cynghori ar gyfer Pobl Hŷn
Age Concern Cymru
Cynghrair Iechyd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
GICC - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

| | | |
|---|---|---|
| Caerdydd | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |
| Caerfyrddin | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |
| Conwy | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |
| Sir Ddinbych | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |
| Sir y Fflint | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |
| Gwynedd | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |
| Merthyr Tudful | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |
| Casnewydd | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |
| Sir Benfro | - | Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn |

Wrecsam - Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn

**Cefnogwyr eraill "mewn egwyddor" y prosiect yw:**

Cadeirydd Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hyn
Abertawe - Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn
Rhondda Cynon Taf - Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn
Pen-y-bont ar Ogwr - Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn
Ceredigion - Grŵp Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn

Amcanion ac amserlenni erbyn pryd y dylid eu cwblhau:

| BETH | PWY | PRYD |
|---|---|---|
| Adolygu ymchwil presennol i nodi rhwystrau sefydledig clir sy'n rhwystro neu'n atal pobl sy'n 50 oed a hŷn rhag cymryd rhan mewn ymgynghoriadau, prosiectau ymgysylltu a phrosesau gwneud penderfyniadau. | Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru - WIHSC | Ebrill 07 |
| Llunio adroddiad syml "darllenadwy" person lleyg sy'n gwneud argymhellion, i'r grŵp gorchwyl a gorffen, ynglŷn â'r rhwystrau allweddol i bobl sy'n 50 oed a hŷn a phe bai'r rhwystrau hynny yn cael eu dileu neu'u lleihau, beth allai helpu i wneud gwahaniaeth sylweddol i ymgysylltiad. Gyda rhestr termau sylfaenol awgrymedig a'r ystyr o fewn cyd-destun y prosiect hwn. | WIHSC | Mai 07 |
| Adolygu'r ymchwil presennol i nodi pa becynau cymorth ac adnoddau a allai fod ar gael ar hyn o bryd | WIHSC | Mai 07 |
| Adolygu'r ymchwil presennol ac ymgymryd â chyfweliadau i nodi'r rhwystrau sefydledig yn glir sy'n atal neu'n rhwystro gweithwyr proffesiynol rhag ymgysylltu â phobl hŷn a llunio adroddiad syml "darllenadwy" person lleyg sy'n gwneud argymhellion, i'r grŵp gorchwyl a gorffen, ynglŷn â'r rhwystrau allweddol i bobl broffesiynol a phe bai'r rhwystrau hynny yn | WIHSC | Mai 07 |

| | | |
|---|---|---|
| cael eu dileu neu'u lleihau, beth allai helpu i wneud gwahaniaeth sylweddol i ymgysylltiad. | | |
| Darparu rhestr dros dro o "becynau cymorth" sydd ar gael i weithwyr proffesiynol a/neu bobl hŷn i'w defnyddio i hwyluso gwell ymgysylltiad | WIHSC | Mai 07 |
| Rhoi'r adroddiad cychwynnol a gwybodaeth pecyn cymorth dros dro ar wefannau perthnasol er mwyn creu adborth a dechrau'r broses o annog y newid mewn diwylliant sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol | Swyddog y Prosiect | Mai 07 |
| Adolygu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad canlyniadau'r ymchwil presennol a phenderfynu pa rwystrau yr hoffem fynd i'r afael â hwy par: gweithwyr proffesiynol a'r rheini sy'n 50 oed a hŷn. | Bwrdd y Prosiect | Mai 07 |
| Datblygu brîff ar gyfer cynlluniau peilot. Dim ond ar ôl i'r penderfyniad am ba rwystrau i fynd i'r afael â hwy y gall manylion yr amcan hwn ddigwydd. | Bwrdd y Prosiect | Mehefin 07 |
| Darparu cefnogaeth Swyddog y Prosiect (yn amodol ar arian) i hwyluso'r prosiect. Bydd grŵp llywio yn monitro'r gwaith hwn. Gwneir gwaith swyddog y prosiect gan swyddog Cyfranogiad a Chynhwysiant CMGG drwy ddod â'r swydd i lefel amser llawn erbyn diwedd mis Mawrth 08 | Swyddog y Prosiect | Mawrt 07 - Mawrth 08 |
| Caiff cynllun gwaith ar gyfer swyddog y prosiect ei ddatblygu gan y grŵp llywio. Bydd y cynllun gwaith hwn yn cynnwys ymgymryd â chynlluniau peilot ar gyfer atebion newydd ac arloesol a chynhyrchu a lansio "pecyn cymorth" ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac un i bobl sy'n 50 oed a hŷn. | Grŵp Llywio | Mai 07 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymgymryd â nifer cyfyngedig o gynlluniau peilot i brofi effeithiolrwydd y dulliau newydd i ddileu'r rhwystrau presennol i weithwyr proffesiynol a'r rheini sy'n 50 oed a hŷn. | Swyddog y Prosiect gyda chymorth rhanddeilaid | Mehefin 07/ Hydref 07 |
| Gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau peilot a pharatoi adroddiad interim byr sy'n awgrymu beth y dylid ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol a'r "pecynnau cymorth" | Swyddog y Prosiect/WIHSC/Rhanddeiliaid | Rhagfyr 07 |
| Cyflwyno adroddiad darllenadwy i weithwyr proffesiynol sy'n manylu ar y gwerth ychwanegol y gall ymgysylltiad effeithiol ei roi i gynllunio a darparu gwasanaethau | WIHSC a Swyddog y Prosiect | Chwefror 08 |
| Cynhyrchu "pecyn cymorth" i bobl hŷn sydd am gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu lleol. | Swyddog y Prosiect a WIHSC | Chwefror. 08 |
| Cynhyrchu "pecyn cymorth" ar gyfer gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu'n effeithiol â'r rheini sy'n 50 oed a hŷn. | Swyddog y Prosiect a WIHSC | Chwefror 08 |
| Lansio'r adroddiad a'r pecynnau cymorth yn swyddogol mewn digwyddiad | Swyddog y Prosiect gyda Bwrdd y Prosiect a rhanddeiliaid allweddol | Mawrth 08 |

**Bwrdd Prosiect Ymchwil Ymgysylltiad**

Mae gennym Fwrdd y Prosiect i lywio'r prosiect hwn a rôl y Bwrdd fydd

- Dyfeisio brîff ar gyfer y prosiect
- Darparu grŵp llywio 4 person llai i ddyfeisio a monitro cynlluniau gwaith ar gyfer swyddog y prosiect ac ymchwil gofal Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru gyda chyfranogiad llawn Steve Thomas, rheolwr y prosiect, a Nick Gould o WIHSC. Aelodaeth y grŵp llywio fydd: Cadeirydd y Bwrdd Gorchwyl a Gorffen, rhywun o'r tu allan i ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, un person arall o'r Awdurdod Lleol, un aelod partneriaeth Gweithred Bositif 50+
- Monitro cynnydd y brîff a gwneud penderfyniadau ar newidiadau i'r brîff pan fo angen wrth i'r prosiect ddatblygu ac wrth i ragor o dystiolaeth gael ei chynhyrchu.

- Bwrdd y Prosiect fydd â'r cyfrifoldeb terfynol am y prosiect. Byddant yn cytuno ar unrhyw benderfyniadau allweddol a chynlluniau gwaith a bydd penderfyniad Bwrdd y Prosiect yn derfynol.
- Bydd Cadeirydd Bwrdd y Prosiect yn cynhyrchu adroddiadau yn ôl y galw (gyda chefnogaeth swyddog y prosiect, WIHSC ac aelodau Bwrdd y Prosiect pan fo angen) ar gyfer arianwyr a rhanddeiliaid allweddol.
- Bydd y Cadeirydd yn trefnu cyfarfodydd Bwrdd y Prosiect a chyfarfodydd y grŵp cynllunio gwaith gyda chymorth swyddog y prosiect.

**Aelodaeth Bwrdd y Prosiect**

| | |
|---|---|
| Mandy Sprague | Partneriaeth Gweithred Bositif 50+ - Cadeirydd |
| Jean Lane | Cynrychiolydd Fforwm 50+ Caerffili |
| Deborah Boyce | Engage (Age Concern Cymru) |
| Jackie Dix | Partneriaeth Gweithred Bositif 50+ |
| Liz Sharma | Swyddog Ymgynghori Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Steve Thomas | CMGG a Fforwm 50+ Caerffili |
| Kerry Morgan | NHPS (Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol) a Phartneriaeth Gweithred Bositif 50+ |
| Ann Lewis | Gofal a Thrwsio Merthyr |
| Claire Morris | Cydlynydd Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, Merthyr |
| Sandra Trimarco | Cydlynydd Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, Casnewydd |
| Jonathan Jones | Cydlynydd Craffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Rhianon Urquhart | Cynghrair Iechyd a Phartneriaeth Gweithred Bositif 50+ |
| Catherine Lacey | Swyddog Celf a Cherddoriaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Ann Meloy | Swyddog Gwerthuso Contractau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Nick Gould | Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol Morgannwg |
| Simon Boex | Llywodraeth Well ar gyfer Pobl Hŷn a Grŵp Cynghori ar gyfer Pobl Hŷn |

**Aelodaeth Partneriaeth Gweithred Bositif 50+**

Grŵp Llywio Fforwm 50+ Caerffili x 2
Swyddog Cyfranogiad ac Ymglymiad 50+, CMGG
Nyrs Ymgynghorol ar gyfer pobl hŷn, BILI Caerffili
Rheolwr Prosiect 75+, prosiect sgrinio, Ymddiriedolaeth GIG Gwent
Rheolwr Partner Cyswllt, Gwasanaeth Pensiwn Lleol
Rheolwr Tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
CMGG,
Eiriolwr Aelod dros Bobl Hŷn a Dirprwy Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Swyddog Eiriolwyr dros Bobl Hŷn a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cydlynydd Partneriaeth Amgylchedd Byw, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cydlynydd Trafnidiaeth Gymunedol
Cydlynydd Partneriaeth Adfywio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Rheolwr Adfywio Cymunedol

Hybu Iechyd NHPS
Cynghrair Iechyd
Cynrychiolydd Sefydliad Gwirfoddol ar gyfer Pobl Hŷn
Cynrychiolydd Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol
Swyddog Datblygu ar gyfer Pobl Hŷn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Rheolwr Cynllunio Gwasanaethau Cymdeithasol Pobl Hŷn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Gwasanaethau llyfrgell
Dysgu Cymunedol
Diogelwch Cymunedol
Canolfan Byd Gwaith
Gofal a Thrwsio Caerffili
Cydlynydd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
Llygad Busnes

**Ariannu ac Adnoddau**

- Mae Partneriaeth Gweithred Bositif 50+ yn rhoi £14,000 tuag at gefnogi treialon o ffyrdd newydd ac arloesol o gysylltu â phobl hŷn.
- Rhyngddynt, mae'r cynghorau canlynol yn rhoi 85.5 awr o Ddiwrnodau adnodd gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) - ar gyfer ymchwil, pecyn cymorth ac ysgrifennu adroddiadau.
  Caerffili
  Caerdydd
  Caerfyrddin
  Conwy
  Sir Ddinbych
  Sir y Fflint
  Gwynedd
  Merthyr Tudful
  Casnewydd
  Sir Benfro
  Wrecsam
- Rydym yn gwneud cais am £20,000 i gyflogi swyddog rhan amser ar gyfer y prosiect ac i gynhyrchu'r set gyntaf o becynnau cymorth.

# ATODIAD 2

## METHODOLEG

Roedd cyflawni adolygiad systematig a chynhwysfawr o lenyddiaeth ar gyfer ymgysylltiad dinesig a materion cysylltiedig, megis gwirfoddoli, y tu hwnt i'r cwmpas presennol.

Mabwysiadwyd y strategaeth ymchwil ganlynol:

1. Chwilio am unrhyw ddadansoddiadau meta (ôl-2003) yn ymwneud â'r pwnc dan sylw a'u darllen.
2. Chwilio am unrhyw adroddiadau diweddar (ôl-2003) yn ymwneud â'r pwnc dan sylw a'u darllen.
3. Asesu'r wybodaeth a gasglwyd o'r ddau gam hyn i weld a yw'n gymwys i'r ymchwiliad.
4. Cymryd camau priodol, e.e. chwilio cronfeydd data academaidd, i lenwi unrhyw fylchau mewn gwybodaeth.
5. Crynhoi'r wybodaeth ac ysgrifennu adolygiad ymchwil.

Daethpwyd ar draws nifer o broblemau wrth ddilyn y strategaeth ymchwil. Ymddangosodd dwy broblem yn arbennig. Yn gyntaf, roedd llawer o'r ymchwil yn rhy gyffredinol i'w ddefnyddio'n uniongyrchol yn y cyd-destun hwn, e.e. cymhelliannau'r holl wirfoddolwyr. Yn ail - ac ar y llaw arall - roedd rhywfaint o'r ymchwil dibynadwy yn rhy benodol, e.e. gwirfoddolwyr hŷn mewn gofal preswyl yng Nghanada.
Ymhlith y problemau eraill roedd y canlynol:

- ⇒ Mae'r llenyddiaeth am ymgysylltiad yn ei ffurfiau amrywiol yn helaeth ac wedi'i rhannu ar draws llawer o ddisgyblaethau, gan gynnwys seicoleg a gwyddor wleidyddol.
- ⇒ Roedd y dadansoddiadau meta hefyd yn rhy gyffredinol.
- ⇒ Ychydig o allbwn a gafwyd o'r chwiliadau am gyhoeddiadau mewn cyfnodolion a adolygir gan gyfoedion a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â rhwystrau i ymgysylltiad dinesig i bobl hŷn.
- ⇒ Mae llawer o lenyddiaeth anecdotaidd ac amwys am ymgysylltiad dinesig, ond rhaid ei ystyried yn dystiolaeth annibynadwy.
- ⇒ Nid yw gwahanu ymgysylltiad dinesig oddi wrth batrwm cyffredinol gwirfoddoli'n syml.
- ⇒ Bu'n anodd gwahanu llenyddiaeth am ymgysylltiad dinesig pobl hŷn yn benodol. Yn arbennig mewn perthynas â 'rhwystrau', roedd tueddiad i ganolbwyntio ar gynhwysiant / allgau cymdeithasol yn ystod chwiliadau. Mae rhesymau dealladwy dros y tueddiad hwn.
- ⇒ Mae nifer o ddogfennau'n aml yn cynnwys pwyntiau bwled sy'n cynnwys y termau 'cyfathrebu gwell' neu 'meithrin ymddiriedaeth' neu 'eglurder am rolau a chyfrifoldebau'. Mae'r rhain yn nodweddu'r rhethreg a'r pregethau sy'n ymddangos mewn llenyddiaeth dinasyddiaeth.

O ganlyniad, mabwysiadwyd y strategaeth ymchwil.


Dehonglwyd y brîff fel un a oedd yn creu detholiad o'r wybodaeth fwyaf perthnasol, mwyaf dibynadwy a'r wybodaeth y gellir gweithredu arni fwyaf. Mewn geiriau eraill, daeth y dasg yn ymarfer cwmpasu 'uwch'. Hynny yw, 'uwch' yn yr ystyr i'r wybodaeth a gasglwyd yn y chwiliadau llenyddiaeth gael ei defnyddio i gynhyrchu 'darluniau' o'r ffenomena dan sylw. Mae'r darluniau o bobl hŷn yr ymgysylltir yn ddinesig â hwy a'r rheini y gellid ymgysylltu â hwy pe na baent wedi'u rhwystro mewn rhyw fodd.

Efallai y byddai'r trosiad hwn yn ein helpu i ddeall proses y dasg ymchwil fel y'i cyflawnwyd yn y pen draw.

Dychmygwch fod rhywun wedi gofyn i chi baentio darlun o ddau wrthrych - un cyfarwydd ag un anghyfarwydd - ond ni allwch eu paentio yn y ffordd amlwg. Rhaid i'r gwrthrychau ymddangos yn y darlun oherwydd y ffordd y paentiwyd yr holl rannau eraill gennych. Er enghraifft, yr her yw paentio darlun o'r Tŵr Eiffel a rhyw wrthrych arall sy'n edrych yn debyg iddo ond nad oes unrhyw un wedi'i weld hyd yma. Ond ni allwch baentio'r Tŵr Eiffel. Rhaid i chi baentio pethau eraill a fydd o'u cyfuno wedyn yn awgrymu'r Tŵr Eiffel a'i gefnder anhysbys.

Roedd tynnu llun o bobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn llywodraethu lleol ac a fyddai'n cymryd rhan pe bai rhai o'r rhwystrau'n cael eu dileu, yn debyg i geisio paentio darlun o'r Tŵr Eiffel a'i gefnder anhysbys yn y ffordd ryfedd hon.

# ATODIAD 3




Ffug. 1 Achosion Gwirfoddoli Cyson. Mae'r ffigur yn cynrychioli model cysyniadol o'r dylanwadau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar wirfoddoli cyson. Cynrychiolir y cydberthnasau achosol cryfach gan linellau soleg; y rhai gwanach gan linellau toredig.